

Llais O gwwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 486 · Mawrth 2018 · 50c

Digon o Sioe

Wedi llwyddiant panto y llynedd Bali Wali Honco, sef y cyntaf o gynhyrchiadau Cwmni Drama'r Llechen Las ar ei newydd wêdd, roedd cryn edrych ymlaen am yr ail. A fyddai modd cyflawni yr un gamp eto eleni.

Wel rodd cynhwysion y riset i gyd yno, y Neuadd, y cast, y criw, y dyddiad ac wrth gwrs yr awydd a'r brwdfrydedd. Ond roedd angen un cynhwysyn pwysig arall, sef sgript. Unwaith eto eleni o hedyn bach a blarwyd yn nychymyg Gaynor Elis-Williams pan orfodwyd canslo Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen yn 2017, y dechreuodd y cyfan. Tyfodd yr hedyn yn goeden â llawer o ganghennau, a'r canlyniad' gyda mewnbwn a geiriau rhai o'r caneuon gan Marian Jones fe gafwyd sgript. Nid sgript gyflawn ar y darlleniad cyntaf, ond sgript oedd yn cael ei haddasu a'i newid yn gyson fel yr oedd y cymeriadau yn datblygu. Os oedd ambell i nodweddion yn dod i'r amlwg a fuasai yn achosi mwy o hwyl yna roedd yn cael ei gynnwys. Gwaith oedd yn gofyn llawer o amser Gaynor a mawr yw dyled y cwmni iddi. Roedd wynebaw newydd hefyd yn y cast a diolch i rai o Hogia'r Bonc am ymuno gyda ni



hefyd. A daeth Iwan Fôn sy'n actio Jason ar Rownd a Rownd i gynhyrchu.

Daeth pawb at ei gilydd fis Medi 2017 er mwyn castio, darllen a thrafod. Nid oedd y daith yn fêl i gyd gan bod aelodau o'r cwmni fel llawer o'r ardalwyr wedi dioddef o fflw a salwch yn ystod misoedd y gaeaf.

Ond wedi ymarfer yn galed daeth dyddiad y perfformio, sef nos Wener Chwefror 9fed a Sadwrn y 10fed. Roedd y neuadd yn llawn am y ddau berfformiad. Am hwyl, gyda'r gynulleidfa yn bobl a phlant yn ymateb yn wych i'r holl bethau oedd yn digwydd ar y llwyfan.

Clywyd llawer yn dweud ei fod "hyd yn oed yn well nag un llynedd" ac roedd hyn wrth fodd y cwmni i gyd, ac yn enwedig i Gaynor. Roedd clywed pawb yn llongyfarch y perfformiad yn gwneud pawb yn hapus dros ben. Er bod poeni ychydig yn rhan o'r "ddrama" sy'n dod yn sgil ymarfer a pherfformio roedd popeth wedi bod yn llwyddiant. Cafwyd llawer iawn o hwyl eithriadol hefyd wrth ymarfer. Doedd hi ddim yn ddieithr gorfod stopio popeth am funudau lawer gan bod pawb yn chwerthin gormod i fynd ymlaen.

Diolch i bawb am llwyddiant y panto eleni a rhaid enwi ein cyfeilydd penigamp Huw Edward Jones oedd yn creu gwythiau gyda'r organ ac i Iwan am ei amynedd wrth gynhyrchu. Edrychwn ymlaen rwan am berfformiad nesaf Cwmni Drama'r Llechen Las.



Panel Golygyddol

- Derfel Roberts**
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn
☎ 07940 90581
dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen
☎ 605192
fionaowen28@gmail.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 0702 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 60167
waltermenai@yahoo.co.uk

Orina Pritchard
☎ 0248 602119
orinapritchard@gmail.com

Rhodri Llŷr Evans
☎ 0773 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Swyddogion

- Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 60415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 60084
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Dewi Llewelyn Siôn.

Y golygydd ym mis Ebrill fydd
Trystan Pritchard,
27Allt Penybryn,
Bethesda, LL57 3DB.
07402 373444
E-bost: trystanrp1@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 4 Ebrill
os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 19 Ebrill**, yng
Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 0970 627916
Argraffwyd gan y Lolfa

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

Dyffryn Ogwen
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
SPAR, Bethesda
Siop y Post, Rachub

Bangor
Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon
Palas Print

Porthaethwy
Awen Menai

Rhiwlas
Garej Beran

EGLWYS UNEDIG
BETHESDA
LLENWI'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned.
Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r
gloch a hanner dydd

Dyddiadur y Dyffryn

- Mawrth**
17 Bore Coffi Gorffwysfan. Cefnfaes.
10.00 – 12.00.
21 Clwb Camera Dyffryn Ogwen.
Darlith gan Gareth Jenkins am 7.15.
24 Bore Coffi Eglwys St. Cedol, Pentir.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
26 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid.
2.30 – 4.00.
28 Bingo Pasg NSPCC. Clwb Criced a
Bowlio Bethesda am 7.00.

Ebrill
03 Cyfarfod Blynnyddol NSPCC
Bethesda. Cefnfaes am 2.00.
05 Sefydliad y Merched Carneddi. Gêm
o boccia. Cefnfaes am 7.00.
09 Merched y Wawr Tregarth. 'Run
Sbit'—Linda Brown. Festri Shiloh am
7.30.
12 Cymdeithas Jerusalem. Peredur
Lynch. Festri am 7.00.
14 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn
Ogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
14 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
9.30 – 10.00.
14 Arddangosfa ffotograffau Rhiwlas/
Pentir. Neuadd Rhiwlas. 10.00 – 3.00.
18 Clwb Camera Dyffryn Ogwen.
Darlith gan Andy Polokowski am
7.15.
19 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45
21 Bore Coffi Cymdeithas Capel
Jerusalem. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn
yn swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch
ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 60415
Neville Hughes ☎ 600853

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
FICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPILL, PRIDASAIL, PARTON AG ATU

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLIWDY 1997 - FERCHENNOG DERFEL OWENS

Rhoddion i'r Llais

- £300.00 Cyngor Cymuned Llandygái.
- £50.00 Steffan Roberts, Pen y Ceunant Isaf, Llanberis.
- £10.00 Di-enw, Tregarth.
- £10.00 Gwyneth Morris, Gwan Gwail, Gerlan.
- £50.00 Er cof am Owi Williams oddi wrth Tom a'r teulu, Hen Barc.
- £30.00 Awen Gwyn, Maes yr Hedydd, Tregarth.
- £10.00 Joan Griffith, Glanffrydlas, Sheryll a'r teulu - er cof am Stephen.

Diolch yn fawr

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

- Gwobrau Mawrth**
- £30.00 (141) Iona Wyn Jones, Pentre Llandygái.
 - £20.00 (99) Dilys Parry, Rhiwlas.
 - £10.00 (11) Orina Pritchard, Rhos y Nant, Bethesda.
 - £5.00 (14) Evelyn Lupson, Pensby, Cilgwri.

Os am ymuno, cysylltwch â Neville Hughes - 600853

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog
Trefn Oedfaon:
Mawrth 18: Oedfa.
Mawrth 25: Parchg. Dafydd Lloyd Hughes.
Ebrill 1: Parchg. Cledwyn Williams.
Ebrill 8: Parchg. I for ap Gwilym.
Ebrill 15: Oedfa.

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Carneddi

Colli Gwilym Jones
Gyda thristwch y cofnodwn golli Gwilym Jones, Cilfodan o'n plith. Roedd Gwilym bob amser yn ŵr bonheddig a thawel a bu'n byw yn Cilfodan gyda Doris, ei ddiweddar wraig, am flynyddoedd lawer. Wedi colli Doris, treuliodd fwy o amser yn Llanfair PG gyda Brenda ei ferch, ond ni thorrodd ei gysylltiad â Chilfodan. Cofiw'n am Gwilym yn gweithio yn un o siopau mawr Bangor am amser hir a chofiwn hefyd am ei hoffter o arddio. Mae'r bylchau ymhlith brodorion Bethesda a Dyffryn Ogwen yn cynyddu a bydd hiraeth ar eu holau.

Collwyd cymeriad hoffus a chywir ym marwolaeth Gwilym Jones a chydymdeimlwn â Roy a Brenda, ynghyd â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Neuadd Bentref Rhiwlas

Dewch i weld arddangosfa o ffotograffau
'Rhiwlas / Pentir a'r ardal dros y Blynnyddoedd'
Dydd Sadwrn, 14eg Ebrill
o 10.00yb - 3.00yp
Mynediad am ddim - rhoddion tuag at gostau'r Neuadd
Gohiriwyd y dyddiad gwreiddiol ym mis Mawrth oherwydd y tywydd garw

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis - 20:00
Oriau Agor
Llun - Gwener 18:00 - 23:00
Sadwrn 15:30 - 00:00
Sul 13:00 - 16:00 a 20:00 - 23:00
douglasarmsbethesda.com
01248 600219



Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40
Owen G. Jones, 1Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 0248 600184



Arweiniad yn fawrol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAG

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Modurdy Central

M.O.T. ar gael Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031



C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Siop yn 01492 641798
Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop

Ysgol Bodfeurig



Dydd Gwyl Dewi
Er gwaethaf yr eira mawr ddaeth ar ddechrau Mawrth llwyddodd Ysgol Bodfeurig i gynnal cyngerdd gwych i ddathlu Gwyl Dewi! Roedd Neuadd Goffa Mynydd yn orlawn gyda rhieni a phobl y pentref wrth i'r plant eu diddanu gyda canu, adrodd, dawnsio gwerin yn ogystal a'u Hakka Cymreig ei hunain! Diolch i bawb gyfrannodd, i'r Cyngor Ysgol am drefnu'r raffl ac i bawb fu'n helpu i weini'r banad, bara brith a chacennau cri yn y gegin. Pnawn llwyddianus dros ben.

Cydweithio
Mae plant yr ysgol bob tro yn mwynhau cydweithio neu

gystadlu yn erbyn plant eraill yn y dalgylch. Mae datblygiadau diweddaraf mewn technoleg yn gwneud hyn llawer haws. Yn ystod y mis cafodd dosbarth Ogwen brofiad gwych yn cydweithio gyda Ysgol Penybryn wrth ddysgu am Islam a hynny heb adael y dosbarth! Bu pawb yn gweithio'n galed ar y chromebooks gyda plant y ddwy ysgol yn gallu gweithio ar yr un ddogfen ar yr un pryd! Rydym yn edrych ymlaen i gydweithio gydag ysgolion eraill y dalgylch yn ystod y tymor nesaf.

Eisteddfod
Dros y misoedd diwethaf mae dosbarth Tryfan wedi bod yn brysur iawn yn paratoi

ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Eleni penderfynwyd gystadlu gyda cerddoriaeth greadigol. Roedd pawb yn nerfus iawn cyn mynd ar y llwyfan ond roedd yn amlwg fod y gynulleidfa wedi mwynhau eu cerddoriaeth

'Awyr y Nôs'. Rydym nawr yn edrych ymlaen i fynd ymlaen i'r eisteddfod Sir ym Mangor!

Dydd Miwsig Cymru
Fel rhan o'n gwaith Siarter Iaith mae'r ysgol yn gwrando ar lawer o gerddoriaeth Gymraeg pob wythnos. Rydym yn dysgu am artistiaid ac am wahanol fathau o gerddoriaeth. Braf felly oedd cael dathlu dydd miwsig Cymru wrth ddysgu mwy am ein hoff artistiaid a gwrando ar fwy o gerddoriaeth! Mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn offer ar gyfer gwrando ar gerddoriaeth allan ar yr iard ac roedd llawer o ddawnsio a chanu yn ystod y dydd.



Ysgol Dyffryn Ogwen



Ymweliad Chwarel Penrhyn
Bu criw o ddisgyblion blwyddyn 10 yn ymweld â safle Chwarel Penrhyn fel rhan o'u prosiect menter, cawsant gyfle i ddylunio cynnyrch llechen gyda

chefnogaeth y chwarel. Diolch i staff y chwarel am ein croesawu!

Coffau'r Holocaust
Bu Owain Morgan o flwyddyn 13 a Thalia Lichtenstein o flwyddyn

11 yn cynrychioli'r ysgol mewn gwasanaeth cyhoeddus a drefnwyd gan Gyngor Gwynedd i goffau'r Holocaust. Roedd Owain yn darllen 'Cysgodion' gan Nesta Wyn Jones a Thalia yn

chwarae 'Theme from Schindler's List' gan John Williams.

Eisteddfod yr Urdd
Bu nifer o ddisgyblion yn cystadlu yn eisteddfod cylch yr Urdd gan gynnwys unawdau Wil Roberts a Grace Wynne a pharti merched; bydd nifer o eitemau yn cynrychioli'r ysgol yn eisteddfod sir Eryri – Parti Llefary, dwy eitem ymgom gan fl.7, unawd Llefary Martha Jones, unawdau Izac Gale, Efa Glain Jones, Elen Wyn, deuawd Elen Wyn a Beca Nia, unawd telyn Betsan Cain Griffiths, unawd piano Luned Elfyn Roberts, unawd

pres Cerys Elen, Parti Bechgyn bl.7, Ensemble Offerynnol a Chôr Hŷn dan arweiniad Owain Morgan a chyfeiliant Gwydion Rhys.

Staff
Mae Mrs Lowri Owen wedi cychwyn ar ei chyfnod yma fel athrawes yn adran y Gymraeg. Hyderwn y bydd yn setlo'n fuan i'w swydd yn yr ysgol.

Gymnasteg
Llongyfarchiadau i Daisy Drage-Ansell o flwyddyn 7 ar ddod yn drydydd yng nghystadlaethau gymnasteg yr Urdd trwy Gymru ar gyfer blynyddoedd 7, 8 a 9.

gair neu ddau

John Pritchard

‘Peidiwch â Chredu’r Peth’

Mae’r rhifau’n drawiadol: bron 60 o flynyddoedd; 417ymgyrch efengyl; 215 miliwn o wrandawyr; 185 o wledydd; ac un dyn a fu farw yn 99 mlwydd oed ganol mis Chwefror. Ydi, mae’r ffigurau’n dweud llawer am fywyd a gwaith yr Americanwr William Franklin Graham J r o Charlotte yng Ngogledd Carolina, un o bregethwyr enwocaf yr ugeinfed ganrif.

Ers ei farw, clywyd pobl yn dyfynnu rhai o ddywediadau cofiadwy Billy Graham, yn cynnwys y mwyaf cyfarwydd o bosibl o’r cwbl: ‘Rhyw ddiwrnod mi fyddwch yn darllen neu’n clywed fod Billy Graham wedi marw. Peidiwch â chredu’r peth. Mi fyddaf yn fwy byw nag wyf fi ar hyn o bryd. Dim ond newid cartref fyddaf wedi ei wneud. Mi fyddaf wedi mynd i bresenoldeb Duw.’

Ond er mor gofiadwy’r geiriau, doedden nhw ddim yn wreiddiol gan mai benthycu geiriau D L Moody un o bregethwyr Americanaidd enwocaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a wnaeth Graham. ‘Rhyw ddiwrnod mi fyddwch yn darllen yn y papurau newydd fod D L Moody, o East Northfield, wedi marw. Peidiwch â chredu’r peth! Y funud honno, mi fyddaf yn fwy byw nag wyf fi ar hyn o bryd. Mi fyddaf wedi mynd i fyny, dyna’r cwbl; allan o’r hen fflat hwn o glai i dŷ sy’n anfarwol – corff na all marwolaeth ei gyffwrdd ac na all pechod ei faeddu; corff a fydd yn debyg i gorff gogoneddus Crist.’

A gellid dweud am bopeth a bregethodd Billy Graham erioed nad oedd dim byd gwreiddiol yn ei gylch gan mai’r cyfan a wnaeth oedd cyhoeddi hen Efengyl yr iachawdwriaeth fawr yng Nghrist. Ac iddo ef, yr oedd honno wedi ei chrynhoi yn y geiriau hyn o Efengyl Ioan: ‘Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy’n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol’ (Ioan 3:16). Dyna’i neges gyson dros chwe degawd o bregethu ar bum cyfandir gerbron miliynau o bobl. Gellid dweud llawer am ei bregethu: yr oedd yn danbaid; yr oedd yn apelgar; yr oedd yn syml; yr oedd yn effeithiol. Ond nid oedd yn wreiddiol gan fod Billy Graham yn gwybod yn iawn nad oes ond un neges, un Efengyl, un Gwaredwr, un Arglwydd ac un ffydd.

Ac ar sail yr un Efengyl honno gallwn gredu fod Billy Graham, fel Moody a miliynau o bobl eraill, yn y nefoedd. Maen nhw i gyd yno oherwydd gras a chariad Duw ac oherwydd marwolaeth Crist drostyn nhw. Nid trwy ei bregethu, nac ar sail ei ffyddlondeb i’r Efengyl dros gyfnod mor faith, nac oherwydd unrhyw beth a wnaeth o dros Grist y cafodd Billy Graham ei dderbyn i’r nefoedd ond oherwydd marwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist. Yr un oedd amodau Teyrnas Nefoedd iddo fo, i Moody, i holl Gristnogion yr oesoedd ac i bawb ohonom ninnau.

GWASANAETH GLANHAU HUGHES

5 Pant Caerhun, Bangor, LL57 4DS (Y cwmni glanhau tu allan cyflawn)

Glanhau ffenestri: Golchi landeri, facsias a soffits.
Gwagio landeri gyda Sky Vacs a CCTV
Golchi ‘meddal’ – patios, “decking” a llwybrau
Golchi toeau ystafelloedd gwydr

Gofynnwch am Nicky ar 01248 355908 neu 07999 376250
pamela-stwnch@hotmail.co.uk

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131



SGAFFALDIAU Cyf.
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



Cynhadledd Undydd ‘Diwylliant y Llyfr yn Eryri’ Dydd Sadwrn, 21 Ebrill 2018 Ym Mhlas Tan-y-bwlch, Maentwrog 10.00 tan 4.00 o’r gloch

- Richard Glyn Roberts**
‘Cadw llên a cholli gwareddiad’

Gwen Angharad Gruffudd
‘Ymdrech bardd-chwarelwr i gyhoeddi yn yr “oes aur” ’

Ffion Eluned Owen
‘“Gore Cof, Cof Llyfr”: Llew Owain a’i gofiannau’

Karen Owen
‘“Y dyn na flinai fod yn aflonydd”: Eifionydd a chymeriadau eraill Prifddinas yr Inc’

Alun Lloyd Price
‘Eisteddfod Cymrodyr Dolwyddelan 1923–31’

Bleddyn Owen Huws
‘W. J. Davies Tal-y-sarn, nofelydd yr Herald ’

Ni chodir tâl cofrestru, ond hoffem i bawb sy’n bwriadu dod rag-gofrestru **cyn 18 Ebrill** drwy anfon gair at cymraeg@aber.ac.uk, neu drwy ffonio 01970 622137.





Amrywiaeth o lysiau ar gyfer prydau

Ffa Ffrengig a Garlleg

Cynhwysion
1-2 owns o fenyn heb ei halltu.
1 llwy fwrdd o olew olewydd.
2 ewin garlleg
1 pws o ffa Ffrengig

Dull

- Rhowch y ffa mewn dŵr berwedig am 4 munud.
- Eu hidlo.
- Toddwch y menyn a'r olew olewydd mewn woc neu badell ffrio.
- Torrwch y garlleg yn dafelli, a'u hychwanegu at yr olew.
- Ychwanegwch y ffa.
- Troi ac ysgwyd y cymysgedd yn dda am 3-4 munud.
- Ei roi mewn dysgl.
- Mae'n hynod o flasus efo unrhyw gig, neu fel pryd llysieuol.

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 0248 354280
Eirlys Edwards, Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU ☎ 0248 351633

Eglwys Sant Tegai, Llandygai

Pererindod Malta
Ar Chwefror 12fed, yn ystod hanner tymor yr ysgolion, teithiodd chwe pererin o'r eglwys i Ynys Malta fel rhan o Bererindod Bro Ogwen. Arweinyddion a threfnyddion y daith oedd y Parchedig John Matthews a'i wraig Sue sydd gyda chysylltiadau teuluol ar yr ynys. Pwrpas y pererindod oedd i ddilyn llwybr ysbrydol St Paul o'r longddrylliad ar yr ynys hyd at ei gaethiwed dros dro cyn gwynebu ei gosb a'i ferthyrddod yn Rhufain. Cafwyd sawl gwasanaeth yn y lleoliadau penodol gyda myfyrdodau perthnasol. Profiad bythgofiadwy oedd gwrando ar y Parchedig John Matthews wrth yr organ mewn dwy eglwys gadeiriol a chael canu yn ddigyfeiliant yng Nghadeirlan Rabat.

Bydd cyfle i eraill rannu yn y profiad mewn gwasanaeth arbennig ar nos Sul Mawrth 18fed yn Ysgoldy St Cross am 7.00 drwy gyflwyniad weledol a myfyrdodau. Croeso cynnes i bawb, yn enwedig i aelodau'r chwe eglwys ym Mro Ogwen a fethodd ddod ar y daith.

Colled
Trist yw cofnodi marwolaeth un o aelodau

yr eglwys sef Mr Gwyn Edwards o Drefonwys Bangor. Bu farw Mr Edwards ychydig cyn i'r Llais fynd i'r wasg. Bu'n aelod ffyddlon o'r gynulleidfa cyn ei daro'n wael ychydig o flynyddoedd yn ôl. Rydym yn cydymdeimlo gyda'i weddw Ceri a'i ferched a'r teulu oll.

Cwrs Garawys
Bydd y cyfarfod olaf yn y gyfres o fyfyrdodau ar Fawrth 22ain am 7yr hwyr yn Ficerdy Pentir

Festri Pasg 2018
Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol Eglwys St Tegai ar Fawrth 18fed am 12.15 h.y. yn syth ar ôl y gwasanaeth arferol. Croeso i bawb.

Rhagrybudd Garddwest y Tair Eglwys Dyddiad i'w gofnodi! Bydd y Garddwest boblogaidd yma ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 14eg 2018. Mae digon o amser gennych i gasglu cyfraniadau i stondinau amrywiol – anrhegion a nwyddau bychain newydd yn dderbyniol iawn!

Eglwys Sant Tegai yn yr Wythnos Sanctaidd

Gwasanaethau arbennig yn yr eglwys :
Dydd Gwener y Groglith (Mawrth 30ain) 9.45y bore, Gorymdaith Y Groes sef taith gerdded o 3.5 milltir yn cychwyn o'r eglwys.

Sul y Pasg (Ebrill 1af) 10.15 Yr Offeren
Y drefn arferol yn y mis yw:
Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y. b.

Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11y.b.

Ysgol Abercaseg

Clwb Digidol

Bu plant blwyddyn 2 yn brysur yn y Clwb Digidol cyntaf. Roedd pawb ar ben eu digon yn defnyddio'r 'Walkie Talkies' newydd ar gyfer rhoi a derbyn cyfarwyddiadau, yn ogystal â defnyddio'r ipads ar gyfer arbrofi ag apiau codio newydd. Roedd cyfle hefyd i'r plant ymarfer a dysgu sut i ddefnyddio robot newydd yr ysgol. Braf gweld pawb yn mywnhau ac yn ymgolli'n llwyr.

Ymweliad Mr Humphreys

Bu Mr Humphreys sef tad Miss Humphreys (dosbarth Ogwen) yn ymweld a'r ysgol. Cartwnydd yw Mr Humphreys a chafodd plant dosbarth Ogwen gyfle i arbrofi a chreu cymeriad cartwnaidd eu hunain. Bu trafodaeth

fywiog gan y plant a gwelwyd lluniau da o gymeriadau gwahanol. Diolch yn fawr i Mr Hymphreys am ymweld a'r ysgol. Profiad gwerth chweil i blant dosbarth Ogwen.

Gwersi Nofio

Cwblhawyd sesiynau nofio ar gyfer Blwyddyn 2 y tymor yma a chafodd y plant gyfnod gwerthfawr o ddysgu sgiliau ar gyfer dysgu nofio. Roedd pawb wedi mwynhau yn arw ac wedi gwerthfawrogi pa mor bwysig yw'r sgil.

Croeso i ddwy athrawes newydd

Croeso i Miss Hymphreys (dosbarth Ogwen) a Miss Davies (dosbarth Tryfan) i'r ysgol. Gobeithio bydd y ddwy yn mwynhau eu cyfnod yn yr ysgol.

I hysbysebu yn Llais Ogwan, Neville Hughes 600853

SAMARIAID

Mac
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 60092
Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau
Mawrth 18fed – Boreol Weddi
Mawrth 25ain – Cymun Bendigaid, Sul y Blodau
Ebrill 1af – Cymun Pasg 9:00 y bore
Ebrill 8fed – Cymun Bendigaid
Ebrill 15fed – Boreol Weddi

Pob gwasanaeth yn dechrau am 9:30 heblaw Sul y Pasg, 9:00 y bore.
Dydd Gwener y Groglith , Mawrth 30ain
Gwasanaeth Dadorchuddio'r Groes am 12:00. Gwasanaethau St Tegai a St Cross i ddilyn yn ystod y bore.

Cynhelir festri Pasg, sef Cyfarfod Blynnyddol yr eglwys nos Fawrth, Mawrth 27ain am 6:00 yr hwyr.
Croeso i bawb i'r cyfarfod yma.
Dydd Mercher, Mawrth 28ain cynhelir tē bach am 2:00 y prynhawn.
Bedyddiwyd Caleb Dafydd, mab bach Gareth a Rhian Bailey Hughes yn ddiweddar.

Clwb Cant Canolfan Tregarth

Mis Chwefror
3 Gomer Davies £15
27 Joyce Jones £10
2 Owenna Thomas £5

Profedigaeth

Daeth y newyddion trist am farwolaeth Joseph Owen, neu Joe Ogwen Motors/ Joe Royal Oak yng Nghartref Fairways, Llanfairpwll ar Chwefror 9 yn 93 mlwydd oed. Roedd ei gartref hyd yn ddiweddar yn

23 Tal y Cae, Tregarth a cholodd ei briod Myra rai blynnyddoedd yn ôl. Cydymdeimlwn gyda'i fab Peter a'i briod yntau Lynda, ei wyrion Lorraine a Steven, ei fab yng nghyfraith Andrew a'i ferch yng nghyfraith Hannah. Cofiw'n hefyd am ei orwyrion Bethan, Steffan, Elin, Nel a Cian. Bu'r angladd yng Nghapel Shiloh, Tregarth ar Chwefror 16 ac fe'i claddwyd ym Mynwent Coetmor.

Capel Shiloh

Oedfaon yn Shiloh am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol
Mawrth 18 Dafydd Hughes, Caernarfon
Mawrth 25 Oedfa Deulu Sul y Blodau
Ebrill 1 Richard Gillion
Ebrill 8 Gwynfor Williams, Caernarfon
Ebrill 15 Gwyndaf Jones, Bangor
Ebrill 29 Dr Jennie Hurd
Mawrth 29 Gwasanaeth Cymun Dydd Iau Dyrchafael am 6 o'r gloch

Profedigaeth
Cydymdeimlwn gyda un o'n haelodau ffyddlonaf sef Helen Jones, 28 Ffordd Fryddlas, Bethesda , a gafodd y brofedigaeth o golli ei phriod Elfed Wyn Jones ar Chwefror 9 yn 79 mlwydd oed.
Cydymdeimlwn gyda'i ferch Bethan a gweddill y teulu. Bu ei angladd yn Amlogfa Bangor ar Chwefror 20 dan ofal y Parchedig Gwynfor Williams.

Profedigaeth
Anfonwn ein cydymdeimlad gyda Myfanwy Morris, ei brawd Dafydd a'r holl deulu yn eu profedigaeth o golli eu chwaer Eda o Fangor, ond yn wreiddiol o Braich Talog, Tregarth

Drws Agored
Galwch draw yn Shiloh bob bore Gwener am 10 o'r gloch hyd 12 o'r gloch am sgwrs, paned a chwmni. Croeso cynnes i bawb.

Merched y Wawr Cangen Tregarth

Nos Lun, Chwefror 5, roedd Festri Capel Shiloh yn llawn o aelodau ar gyfer noson Gwaith Celf ar gyfer y Pasg. Roedd y noson dan ofal Jên Margiad Temple Morris a'i mam Margaret Jones, Cae Drain , Tregarth. Bu'r ddwy yn paratoui yn ddyfal at y noson a chafwyd llond gwlad o hwyl yn gwneud y Gwaith Celf. Diddorola manwl oedd mynd ati i beintio sidan Cenhinen Pedr ar gyfer ei roi mewn coster ar y bwrdd. Mwynhaodd pawb y gwaith a diolchwyd yn gynnes i'r ddwy gan Angharad Huws gyda Alwena Puw, Luned ac Enid yn paratoi'r baned.

Bydd y gangen yn cyfarfod nesa yn Pot J am, sef y bwyty ym Mhorthaethwy ar Fawrth 5 ar gyfer Cinio Gwyl Ddewi. Edrychwn ymlaen at gefnogi y fenter newydd hon sydd wedi'i lleoli ar y brif stryd yn y pentre.

Ar Ebrill 9 byddwn yn croesawu Linda Brown, Gerlan, am noson o fwynhad yn Festri Capel Shiloh am 7.30 o'r gloch. Croeso i bob aelod ac i aelodau newydd.

Diolch

Dymuna deulu y diweddar Raymond Daxter, ei frodyr David a Peter a'i gefndir Eric Pride ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt gan bobl yr ardal ar ôl eu profedigaeth o golli brawd annwyl iawn.

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531
01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech,
Garnedd Lwyd, 7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau
Mawrth 18: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
Mawrth 25: Gweinidog.
Ebrill 1: Gweinidog (Cymun)
Ebrill 8: Parchg. Ddr. Huw John Hughes.
Ebrill 15: Parchg. Gwynfor Williams.
Oedfaon am 5.00 oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Sul am 10.30 yb.
Clwb Dwylo Prysur, Nos Wener am 6.30yh.
Dydd Llun, 26 Mawrth. Te Bach . 2.30 – 4.00.

Ysgol Sul
Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu plant hynaf yr Ysgol Sul yn gwnio lluniau ffelt ar glustogau ar thema “Dŵr”. Gwnaeth y plant luniau o gwch ar y môr, pysgod. alarch ar y llyn, dyn eira ac ambarel.
Mae nhw ar hyn o bryd yn ymarfer canu ar gyfer y gwasanaeth Gwyl Ddewi.



Hwyl wrth wnio a dangos eu clustogau.

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Nos Fercher, Mawrth 28

am 7 o'r gloch yn
Festri Capel Carmel.

Bydd sgwrs gan
Mr. Arwyn Oliver a
Mr. Owen Jones

‘Taith Ddifyr Arall’

CROESO CYNNES!

I hysbysebu yn Llais Ogwan,
Neville Hughes 600853

Diolch

Hoffai Wil, Tom a Rich a'u teuluoedd ddiolch o galon unwaith eto am y rhoddion er cof am eu tad sef Owie Williams Maes y Garnedd. Trosglwyddwyd £1,000 i Ward Peblig Ysbyty Eryri.
Hoffai'r Llais ddiolch hefyd i Tom, Karen, Ceri, Stephen ac Elen (Henbarc) am eu rhodd er cof am Dad, Taid a Hen Daid annwyl.
Hoffai Betty Percival J ones, Ffordd Tan y Bwlch ddiolch i bobl yr ardal am eu caredigrwydd a'u rhoddion er cof wedi marwolaeth ei mab Geraint. Hoffai ddiolch hefyd i'r parchedigion Dafydd Coetmor Williams a John Pritchard, yn ogystal â'r organydd Helen Williams a Stephen J ones yr ymgymwrwr angladdau.

Y Royal Oak

Da yw deall fod Alison J ones yn bwriadu cadw drysau'r Dderwen Frenhinol yn agored wedi marwolaeth drist ei gwr Geraint. Welwyd baneri'r chwe gwlad y tu allan i'r tŷ tafarn unwaith eto yn ystod y gystadleuaeth rygbi.

Clwb Hanes Rachub

Yn anffodus, bu'n rhaid gohirio cyfarfod mis Chwefror o'r Clwb Hanes, oherwydd y tywydd garw, ond na phoener, –cawn gyfle i wrando ar sgwrs y Prifardd Ieuan Wyn 'O Ben Lôn Bronnydd' yn y dyfodol agos. Cofiwch am sgwrs Mr. Arwyn Oliver a Mr. Owen J ones 'Taith Ddifyr Arall', yn Festri Carmel, 7:00, Nos Fercher, Mawrth 28.

Blychau halen Rachub

Am fod Cyngor Gwynedd wedi rhoi'r gorau i lenwi blychau halen a chyingor Bethesda wedi cytuno i fabwysiadu'r gwasanaeth, gofynnodd y Cyngorydd Godfrey Northam i Gyngor Bethesda am fwy o halen ynddynt wedi iddo dderbyn cwyn. Hefyd ofynnodd am flychau newydd yn lle'r ddau oedd wedi eu torri. Ni fydd llenwad arall am fod y gaeaf yn dod i ben.

Angladd

Cynhaliwyd angladd Eirlys Cefni J ones o Garneddi yng Nghapel Carmel ar ddiwedd mis Ionawr am iddi gael ei magu yn Rachub. Cydymdeimlwn a'r teulu a'i chyfeillion.

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

Llongyfarchiadau

Cafwyd cystadlu brwd yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Dyffryn Ogwen, a llwyddiant i rai o Rachub a Llanllechid. Cipiodd Gruffudd Beech dair gwobr gyntaf ar yr unawd, y llefaru a'r cerdd dant i flwyddyn 2 ac iau, a daeth Gwenno yn fuddugol ar yr Unawd Cerdd Dant bl.3-4 ac yn ail ar y llefaru. Llongyfarchiadau i Lois J ones am ddod yn drydydd ar yr Unawd bl.5-6, ac i bawb arall fu'n cystadlu.

Eira

Cafodd plant Llanllechid fwynhau'r eira wrth i'r tymheredd blwmio a'r ysgol gau am bron i wythnos gyfan. Roedd sawl un wedi manteisio ar y cwrldid gwyn drwy estyn eu sled a sglefrio ar hyd ellydd yr ardal. Gobeithio fod pawb wedi cadw'n ddiogel, a thrigolion yr ardal i gyd wedi llwyddo i swatio'n gynnes rhag y tywydd garw.

Bwrlwm Haf

Mae Bwrlwm Haf yn ôl! Bydd diwrnod o hwyl i'r ardal yn cael ei gynnal ar bnawn Sadwrn, Gorffennaf 7fed, gyda 5 tîm yn cynrychioli gwahanol rannau o Ddyffryn Ogwen i gystadlu yn erbyn ei gilydd mewn amrywiol gystadlaethau doniol!
Fedrwc chi dynnu rhaff, taflu welingtons, cwffio clustogau, gwrthio ffrind mewn berfa a phethau llawn hwyl tebyg? Os felly, cofiwch gefnogi eich ardal!! Ein capten ni yma yn Rachub a Llanllechid yw Michael Williams (michaellambchops@hotmail.co.uk), felly cysylltwch!

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant,
Bethesda ☎ 600689

Rydym yn anfon ein cofion at Mrs Norma J ones a Mrs Eirlys J ones yr naill yn Bryn Seiont Newydd a'r llall yn Ysbyty Eryri.
Llongyfarchiadau mawr i Shirley, 16 Gernant ar ddod yn Nain am y tro cyntaf i eneth fach Mark ei mhab a'i wraig sydd yn byw yn Llundain.
Cofion at bawb sydd di bod yn sal yn sgil y fflw a'r annwyl.

Copa

Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094
Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.
Cyngori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont
☎ 353500

Ysbyty
Dymuniadau gorau am adferiad iechyd llwyr i Meic, 51 Bro Emrys, sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd, ond wedi cael galwad i fynd i ysbyty yn Lerpwl yn fuan, i dderbyn triniaeth ar ei galon.

Mae Jean Hughes, 3. Talybont Cottages, newydd ddychwelyd adref o Ysbyty Gwynedd, yn dilyn pwl o afiechyd annifyr iawn. Mae Jean, hithau, yn disgwyl galwad am driniaeth bellach cyn bo hir.

Marw
Ar Chwefror 21ain, bu farw Michael Chadwick, 1 Cae Bach, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, yn dilyn cyfnod o waeledd.

Cymeriad tawel a chyfeillgar oedd Michael. Hoffai fynd â'i gi am dro at Fferm Pentrefelin, ac yntau, erbyn hyn, yn gaeth i'w gerbyd anabledd.

Oedai ar y ffordd i daro sgwrs â'r naill a'r llall, a byddai pawb bob amser yn falch o'i gyfarfod.

Daeth tyrfa fawr i'r Amlosgfa ar ddydd Iau, 1af o Fawrth, i ffarwelio âg un oedd yn boblogaidd ac yn gymeradwy gan bawb.

Anfonwn gydymdeimlad dwysaf at ei weddw, Shelagh; eu pedair merch, Michaela, Anita, Maggie ac Einwen; at y meibion – yng – nghyfraith, a'r wyrion a wyresau oll.

Gyda thristwch, clywsom am farwolaeth Mr. Gwyn Edwards (Mr. Edwards Chemist, Stryd Fawr, Bangor). Mae llawer ohonom yn cofio Mr a Mrs Edwards yn siop y Fferyllydd, a rhai o drigolion hŷn Talybont yn eu cofio'n byw ym 'Menarth', Dolhelyg, lle magwyd eu dwy ferch, Bethan a Ceri.

Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu galar.

Babi Newydd
Llongyfarchiadau i Geraint a Meinir, Cae Mawr, Gatws, ar enedigaeth Efa Rhos ym mis Ionawr. Mae Eban Llwyd wrth ei fodd efo'i chwaer fach.

Pantomeim Cwmni'r Llechan Las
Braf oedd gweld dwy chwaer o Fro Emrys, Elen a Beca, yn chwarae rhannau blaenllaw yn y pantomeim 'Digon o Sioe' yn Neuadd Ogwen eleni. Cawsom awr a hanner o hwyl a mwynhâd pur, wrth i'r criw fynd â ni i faes Sioe Dyffryn Ogwen, a gwyllo'r troeon trwstan di-ri a ddaeth i'w rhan. Mae arna'i ofn bydd Sioe Amaethyddol 2018 yn ymddangos yn ddiniwed iawn wrth ochr cyflwyniad Cwmni'r Llechan Las!

Eglwys St. Cross
Mae'n dda iawn gennym ddeall bod y driniaeth ar ei llygaid a dderbynniodd Mrs Muriel Owen wedi bod yn llwyddiannus.

Anfonwn ddymuniadau gorau am wellhad buan i bawb a fu'n cwyno yn ystod y Mis Bach.

Calendr yr Eglwys
Cynhelir Noson Caws a Gwin am 7o'r gloch ar nos Wener, Mawrth 16eg yn Ysgoldy Maes y Groes. Mynediad £5, yn cynnwys tocyn raffl.

Gwasanaeth Pererindod Malta – "Yn ôl traed Sant Paul"
Ar nos Sul, Mawrth 18fed, cynhelir gwasanaeth am 7o'r gloch yn Ysgoldy Maes y Groes. Yn dilyn y gwasanaeth, cawn gyfle i glywed hanes, a gweld lluniau'r pererinion a aeth i Ynys Melita ym mis Chwefror.

Cynhelir ein Cyfarfod Blynnyddol (Festri'r Pasg) am 7o'r gloch ar nos Fawrth, Mawrth 20fed, yn Ysgoldy Maes y Groes.

Gwanwyn Glân: Glanhau trylwyr ar gyfer y Pasg, am 10o'r gloch ar fore Sadwrn, Mawrth 24ain, yn Eglwys St. Cross.

Yr Wythnos Fawr:
Nos Iau Cablyd, Mawrth 29ain – 6o'r gloch yn Eglwys St. Cross – Gwasanaeth golchi traed neu ddwylo.

Dydd Gwener y Groglith, Mawrth 30ain:– 9.45 a.m. – Gorymdaith o Eglwys St. Tegai i Dalybont ac Eglwys St. Cross erbyn 10.45 a.m.

2o'r gloch – Gwasanaeth "Yr Awr Olaf".

Bore Sul y Pasg, Ebrill 1af.
11. 15 a.m. – Gwasanaeth y Cymun Bendigaid

Capel Bethlehem
Oedfaon
Mawrth 18: Parchg. Cledwyn Williams, Bangor; Mawrth 25: Gweinidog; Ebrill 1: Parchg Trefor Lewis; Ebrill 8: Gweinidog; Ebrill 15: Parchg. R. O. Jones; Ebrill 22: Gweinidog.

Oedfaon am 2o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Cofion
Rydym yn falch bod Dilys Williams, wedi gadael yr ysbyty ac wedi ymgartrefu yn ôl ym Mhlas Ogwen, ac yn teimlo'n well.

Yr Ysgol Sul
Roedd yn braf cael eu croesawu'r plant i gyd yn ôl yn dilyn gwyliau hanner tymor. Maent yn mwynhau eu gwaith yn yr Ysgol Sul, a byddant yn paratoui ar gyfer arholiadau'r Gymanfa sydd i'w chynnal ar fore Sul, 20 Mai. Bryd hynny byddant yn derbyn tystysgrif a gwobr am eu gwaith a'u ffyddlondeb.

Londis Bethesda

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loleri, cardiau a biliau trydan a rwy
Peiriant codi arfan di-dâl
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

Malinda Hayward

(Gwniadwraig)
Awel Deg
Penygroes, Tregarth.
Am unrhyw waith gwnio
- trwsio, altro ac ati -
Ffoniwch
01248 601164

Sefydlwyd1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
(symudol) 07702 583765
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr + Porthladdoedd
Contractau
Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwylans Gogledd Cymru

Owen's

Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Prefat
a Bws Mini
01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



2018

- 17 Mawrth – Cefnfaes – Gorffwysfan.
- 24 Mawrth – Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.
- 07 Ebrill – Cefnfaes – Neuadd Talgai.
- 14 Ebrill – Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 21 Ebrill – Cefnfaes – Cymdeithas Capel Jerusalem.
- 28 Ebrill – Cefnfaes – Cyfeillion Ysbyty Gwynedd
- 12 Mai – Cefnfaes – Cymorth Cristnogol.
- 12 Mai _ Caffi Coed y Brenin – NSPCC
- 19 Mai – Cefnfaes ddim ar gael.
- 02 Mehefin – Cefnfaes – Cronfa Tracy Smith.
- 23 Mehefin – Cefnfaes – Plaid Cymru
- 30 Mehefin – Neuadd Ogwen – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 14 Gorffennaf – Caffi Coed y Brenin – NSPCC
- 08 Medi – Caffi Coed y Brenin – NSPCC
- 29 Medi – Cefnfaes – Plaid Cymru.
- 06 Hydref – Cefnfaes – Gorffwysfan.
- 13 Hydref – Cefnfaes – Cronfa Tracy Smith
- 20 Hydref – Cefnfaes – Eglwys St. Cedol.
- 27 Hydref – Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 03 Tachwedd – Cefnfaes – Neuadd Talgai.
- 24 Tachwedd – Caffi Coed y Brenin – NSPCC
- 24 Tachwedd – Cefnfaes – Cronfa Cancr y Prostrat.

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddarau ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

Marchnad Ogwen

Ebrill 14eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Mai 12fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Mehefin 9fed
Sioe Dyffryn Ogwen

Bwydydd, Crefftâu, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST
MAWRTH 27
EBRILL 10 a 24
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

Carmel Llanllechid

Te Bach
Dydd Llun, 26 Mawrth
2.30 – 4.00
Croeso i bawb!

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI GORFFWYSFAN
SADWRN, 17 MAWRTH
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

EGLWYS ST. CEDOL, PENTIR
SADWRN, 24 MAWRTH
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN
SADWRN, 14 EBRILL
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI CYMDEITHAS CAPEL JERUSALEM
SADWRN, 21 EBRILL
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

NSPCC BETHESDA

Bingo Pasg
yn y Clwb Criced a Bowlio
Nos Fercher, 28 Mawrth
am 7.00yh
hefyd

Cyfarfod Blynyddol
yng Nghanolfan Cefnfaes
Dydd Mawrth, 3 Ebrill
am 2.00yp

CYMHORTHFA RHEINALLT PUW

Gorffwysfan
Dydd Mercher
28 Mawrth 2018
4.00 – 5.30

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 0248 355336

Radio Cymru
Yn ystod ei raglen un bore yn ddiweddar soniodd Aled Hughes iddo weld yr arwydd Lôn Bach Awyr, sef y lôn sy'n arwain i'r pentref, roedd gsnddo ddiddordeb yn nhariad yr enw yma. Un eglurhad a gefais oedd mai Ffordd yr Arwyr ydoedd yn wreiddiol, ond eraill yn dweud mai Hawyr Bach oedd y tsrddiad, ebychiad, efallai ar ôl cerdded yno o't pentref. Cyn lledu'r lôn roeddem wrth ein bodd yn cerdded at Lon Bach Awyr, roedd wal isel yno ac roeddem yn eistedd arni yn gwylio'r ceir yn mynd heibio. Dim byd gwell i'w wneud mae'n debyg!

Rhaglen ddiddorol iawn yw Cofio gyda J ohn Hardy, mae'n pori yn archif Radio Cymru ac yn cael sgysiau difyr ac amserol. Rhai wythnosau nôl cafwyd sgwrs rhwng Beti George â'r d'iweddar Deiniol Price, mab hynaf teulu'r Wern, Waun Pentir. Roedd yn uwch arolygydd dyda'r heddlu yn Birmingham ac roedd yn trafod rhyddhau y chwech a garcharwyd ar gam. Roedd yn gyfnod cythryblus a dyrys pan ffrwydrodd bom mewn tafarn a lladd 21a niweidio nifer fawr hefyd.Yn

ystod y cyfnod yna roedd Deiniol yn trafod y digwyddiad ar y teledu a'r radio.

Clwb Rhiwen
Cyfarfod Chwefror 14 Cafwyd paned a chremfogau wedi eu paratoi gan Mair a phawb yn eu canmol. Ann a Mair enillodd y raffl.

Dathlu penblwydd
Dathlodd Glyn Jones 11; Bro Rhiwen, benblwydd arbennig yn ddiweddar. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i ti yn y dyfodol.

Priodas Ddeiamwnt
Ar Chwefror 22ain dathlodd John Huw a Heulwen drigain mlynedd o fywyd priodasol. Llongyfarchiadau a chofion at y ddau ohonoch. Gobeithio eich bod yn gwella Heulwen ar ôl y fflw.

Cydymdeimlo
Bu farw Mrs Catherine Hughes Jones, modryb i Meurig Williams, Bro Rhiwen. chwaer i'w fam. Anfonwen ein cydymdeimlad atoch fel teulu. Roedd Meurig a Brenda yn ddipyn o ffrindiau â hi ac yn gweld ei cholli yn sicr.

Gwellhad buan
Rydym wedi cael cyfnod o dywydd oer, sawl

un wedi dioddef o'r anwyd a'r fflw. Treuliodd Mr Bob Jones, Penrhyn Teras gyfnodau yn Ysbyty Gwynedd ac anfonwn ein cofion atoch ac at sawl un arall sy heb fod yn dda yn ddiweddar.

Cyfarfod cyntaf Grŵp Diffib Rhiwlas
Ffurfiwyd y grŵp wedi i Elfyn Jones-Roberts, Cae Glas, ddeall fod sawl pentref yn yr ardal wedi cael offer diffribilio ac fe aeth ati i drefnu cyfarfod cyhoeddus yn Rhiwlas i drafod cael diffibriliwr yn y pentref. Cafwyd cyflwyniad ganddo ac wedi trafodaeth cytunwyd yn unfryd ein bod yn bwrw mlaen i gasglu arian i gael un yn y pentref. Etholwyd y canlynol ar y pwyllgor: Elfyn, Elwyn Jones, Deborah Job, Ceri Owen, Dr Hannah Lock, Iaria Zanier. Mae sawl cwmni'n gwerthu'r cyfarpar a phenderfynwyd penodi Hannah a Ceri i ymchwilio pa un fuasai'r gorau inni gan fod y ddwy yn brofiadol yn y maes yma. Roedd pawb o'r farn inni gael cyfarfod buddiol a bydd croeso i bawb sydd â diddordeb i fynychu'r un nesaf.

Arddangosfa o hen luniau Rhiwlas
Yn anffodus oherwydd gerwinder y tywydd bu'n rhaid gohirio'r arddangosfa, fe fydd nawr yn cael ei chynnal ar Dydd Sadwrn, Ebrill 14 o 10 yb-3 yp.

CHWILAIR

DARLITH FLYNYDDOL
LLYFRGELL BETHESDA

A	A	W	F	H	R	D	Y	L	A	N	W	A	D	A	U	C	I	E	J
L	C	M	B	V	B	H	X	J	P	U	I	S	H	V	S	R	H	E	I
M	G	V	H	M	D	W	H	E	U	Z	M	X	T	V	A	W	D	D	N
A	P	A	U	Q	U	S	S	O	F	R	P	Y	W	Q	Z	Y	G	R	H
C	U	M	W	N	O	D	Y	R	I	A	S	Z	O	U	T	D	F	D	X
U	P	W	R	H	A	C	Q	H	W	E	H	O	S	Y	E	R	E	G	E
O	M	H	E	I	P	T	T	C	B	B	C	U	R	U	J	O	P	L	T
M	I	V	M	V	D	C	B	B	F	R	F	N	O	O	G	J	V	I	I
R	R	I	L	O	N	N	E	F	F	R	O	G	R	O	I	F	O	C	X
O	O	I	M	H	T	T	O	S	K	F	O	P	W	W	R	C	M	K	C
R	B	I	O	P	R	C	X	V	A	R	Y	H	L	S	T	M	R	E	F
F	Y	J	F	D	O	Z	H	R	B	C	W	O	E	S	C	R	A	I	X
N	N	I	L	O	X	I	W	J	J	M	B	W	R	T	E	X	M	D	X
E	K	F	U	P	C	Y	S	C	Q	Y	O	I	A	L	F	E	R	Z	Q
H	R	O	C	T	D	N	D	R	G	W	S	L	W	Z	E	B	E	A	J
R	K	J	C	Y	L	N	Y	L	O	R	V	H	O	G	J	P	W	P	G
Y	S	O	N	W	J	J	Q	W	U	L	F	S	C	V	T	X	E	U	G
H	S	O	L	Z	E	A	F	X	S	I	W	T	Y	Z	H	K	V	A	G
B	H	N	K	A	D	S	I	K	O	G	D	H	B	S	I	U	R	O	X
A	G	X	R	A	E	E	K	K	D	A	N	T	O	G	W	B	M	B	J

Yn y chwilair mis yma mae ENW NAW O DDARLITHOEDD LLYFRGELL BETHESDA RHWNG 1973 A 1982. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y Coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn EBRILL 3ydd. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y cwbl, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Dim ond NAW ateb sydd i'r chwilair y mis yma, felly mae eich gwaith o chwilota am yr atebion yn haws o lawer, ac rwyf yn disgwyl llawer mwy o atebion cywir oherwydd hyn, pob lwc. Roedd dau cystadleuydd wedi cael hyd i'r enwau Hughes a Pritchard yn y chwilair ond nid oeddwn

wedi bwydo'r enwau yma i'r rhaglen, ym diheuriadau am y dryswch. **Dyma atebion Chwefror** : –Buller Evans, Dafydd Orwig, Emlyn Evans, Ernest Roberts, Ieuan Ll. Jones, John Ll. Roberts, Kathleen Roberts, Rhiannon Rowlands, Ronald Pardoe, Tom Davies, Vera Hughes, William Thomas Parry. **Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir** : –Gwenda Bowen, Gerlan; Gwilym a Barbara Owen, Rhos y Nant; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Glyn Davies, Llanfairpwll; Rosemary Williams, Tregarth; Barbara Anne Conlan, Glanogwen; Elizabeth Buckley, Tregarth; Myfanwy Jones, Gaerwen; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Mrs Gwen Davies, Bethesda; Wendy Eccles, Llanllechid; Colin Davies, Blaenau Ffestiniog; Mair Williams, Mynydd Llandegai; Doris Shaw, Bangor. **Enillydd Chwefror oedd** : –Gwenda Bowen, 10 Stryd Hir, Gerlan.

Caerhun a Glasinfryn

Cylch Glasinfryn

Oherwydd yr eira a nifer o ymddiheuriadau cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol yn nhy Mair ar 7 Chwefror. Agorodd Mair y cyfarfod drwy ddiolch i bawb oedd wedi cefnogi a llwyddo i wneud y Cylch yn ystod y flwyddyn gyntaf yn llwyddiant mawr. Diolchwyd yn arbennig i Margaret a Kath am fod yn gyfrifol am adroddiadau i Llais Ogwan yn ystod y flwyddyn. Rhoddodd J ocelyn adroddiad o'r cyfarfodydd a'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, cytunodd bawb ei fod yn syniad da cael cyfarfodydd y Gaeaf yn y prynhawn.

Rhoddodd Christina adroddiad manwl o'r Fantolen Ariannol am y flwyddyn gan ddatgan ein diolch i Gyngor Cymuned Pentir am y nawdd ariannol o £500 i'r Cylch. Cytunwyd i adael yr Aelodaeth yn £10 y flwyddyn a £2 i ymwelwyr.

Cawl a Chan fydd ein digwyddiad nesaf ar 14 Mawrth gyda'r adloniant yng ngofal Marian Bryfdir. Bydd y cyfarfod yn dechrau gyda swper Gwyl Dewi am 6yh. Mae croeso cynnes i bawb ymuno a ni, yn ddynion a merched ! Mae Rhaglen hynod ddiddorol wedi ei drefnu ar gyfer y flwyddyn sydd siwr o fod at ddant bawb !

Ar 11 Ebrill byddwn yn croesawu Maralyn Pyke-Davies atom i roi sgwrs am Gastell Penrhyn

Bingo

Cynhelir Noson Bingo tuag at elusennau lleol ar 6 Ebrill am 7yh. Buasem yn hynod ddiolchgar o unrhyw gyfraniad tuag at y Raffl neu Gwobrwyon Bingo. Gellir eu rhoi i Mary neu Ann yng Nglasinfryn a Mair yn Waen Wen.



Marchnad Ogwen

Mae croeso cynnes i chwi oll i Farchnad mis Ebrill – sydd ar y 14eg o'r mis. Mae'r Farchnad yn dechrau am 9.30 ac yn agored tan 1o'r gloch.

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Farchnad ym mis Chwefror ac fe etholwyd y canlynol – Cadeirydd, Lynda Pritchard. Ysgrifennydd, J an J ones. Trysorydd, Angharad Huws. Swyddog Stondinau, Delyth J effreys.

Nid ydym yn cynnal y Stondin 'Un Tro' ar hyn o bryd oherwydd diffyg lle. Stondin oedd hon ar gyfer gwerthwyr oedd eisiau rhoi cynnig ar werthu eu nwyddau yn achlysurol. Fodd bynnag, 'rydym wedi creu 'banc' o stondinwyr sydd yn fodlon dod ar fyr rybudd. O bryd i'w gilydd, mae rhai o Stondinwyr rheolaidd y Farchnad yn methu dod oherwydd salwch ac yn y

blaen ac mae lle ar gael. (Pan mae ein stondinau rheolaidd ni i gyd yn bresennol, does dim lle o gwbl yn y Neuadd). Felly o bryd i'w gilydd, bydd stondin gyda nwyddau gwahanol yn y Farchnad.

Mae Marchnad Ogwen wedi croesawu dysgwyr ers y dechrau. 'Rydym yn falch o helpu dysgwyr ac yn fodlon iawn sgwrsio gyda hwy. Daeth dysgwyr i aros yn y Gerlan y ddiweddar ac roeddynt wedi gwirioni gyda'r gwahanol gyfleoedd i ddatblygu geirfa a sgiliau iaith oedd mewn marchnad fel Marchnad Ogwen. Croeso!

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd sy'n cynnal y Stondin Elusen y mis hwn. Mae'r Stondin yma wedi ei llogi am weddill y flwyddyn erbyn hyn . Y nesaf sy'n rhydd yw Ionawr 2019!

Mae gwybodaeth lawn am y Farchnad ar ein gwefan

www.marchnadogwen.co.uk ac ar dudalen facebook y Farchnad.

Stondin y Mis –Maggie's Exotic Foods

Maggie Ogunbanwo o Benygroes , Dyffryn Nantlle yw perchennog Stondin y Mis y tro hwn. Mae cefndir Nigeria ac Affricanaidd Maggie yn dylanwadu ar ei bwydydd arbennig ac unigryw. Un o brif gynhwysion bwydydd Maggie yw chilli, ac mae wedi creu amrywiaeth o sawsus a siytni sy'n barod i chwi eu defnyddio yn syth. Mae'r cynnyrch yn addas i lysieuwyr, fegans, i rai sy'n dymuno bwyd heb gynhyrchion llefrith a hefyd yn addas i bobl sydd angen bwydydd heb glwten.

Y ddiweddar, mae Maggie wedi ennill gwobr Busnes Cymru mewn seremoni yng Nghaerdydd. Mae wedi ennill y wobwr am fod y gorau trwy Gymru am gael ei mentora i ddatblygu ei busnes! Ardderchog Maggie –da iawn chdi.

Mae cyfle i chwi flasw'r bwydydd ar ei stondin a chael sgwrs yn y Gymraeg gyda Maggie. Mae Maggie yn un o dair o Stondinwyr sydd wedi dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg yn y Farchnad. Rydan ni yn falch ohoni ym Marchnad Ogwen.



Plaid Cymru – Cangen Dyffryn Ogwen

Gohirio oherwydd y tywydd oedd hanes digwyddiadau Plaid Cymru y mis diwethaf, fel nifer o ddigwyddiadau eraill y dyffryn. Cynhelir ein Bore Coffi yn hwyrach yn y flwyddyn ym mis Mehefin, gan obeithio am dywydd braf yr adeg honno.

Er hyn bu ein Aelod Seneddol a'n Aelod Cynulliad yn gweithio yn ddiflino yn ein

hetholaeth. Bu Siân Gwenllian a Hywel Williams yn ymgyrchu gydag eraill i gadw'r gwasanaethau fasgiwlar byd enwog, yn Ysbyty Gwynedd. Bu'n fwiad i symud yr uned hon o Ysbyty Gwynedd a'i chanoli mewn man gwahanol. Da iawn yw gweld bod ein haelodau yn cadw cysylltiad agos ac yn gweithio dros eu cymunedau.

Dydd Sadwrn Mawrth 17eg bydd hi'n Sadwrn Ymgyrchu Bangor am 10:00 y bore, yn cychwyn o Swyddfa Plaid Cymru, 70 Stryd Fawr. Bydd cinio ar gael yn yr Harp am hanner dydd.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Mawrth 27ain yng Nghanolfan Cefnfaes am 7:00.

Balchder Bro Ogwen

Roedd gwirfoddolwyr Balchder Bro Ogwen yn falch o gael cyfle i ymuno â phlant dosbarth Mr Stephen Jones yn Ysgol Llanllechid i hel sbwriel. Cafodd y plant eu rhannu'n bedwar grŵp a aeth ati i hel sbwriel yn Lôn Bach Odro, Maes Bleddyn a'r tiroedd o amgylch Plas Ffrancon. Dyma'r bedwaredd flwyddyn y mae'r Balchder Bro wedi cydweithio i dacluso'r ardal ger yr ysgol a helpu'r plant i ddysgu mwy am eu hamgylchedd a phwysigrwydd gwaredu sbwriel yn gyfrifol a'i ailgylchu lle mae'n bosibl.

Y llynedd casglwyd 19 llond sach o sbwriel ac roedd y plant wedi gobeithio y byddai llai i'w gasglu eleni os oedd pobl yn taflu llai. Roedd ychydig yn siomedig felly eu bod wedi casglu mwy, sef llond 21 sach, ynghyd â rhai eitemau mawr, fel hen feic oedd wedi'i daflu dros wal. Serch hynny, roedd y plant wrth eu boddau yn defnyddio'r ffyn codi sbwriel ac yn falch o'u hymdrechion cloddiw i gasglu cymaint mewn ychydig dros awr a gwella golwg yr ardal.

Dywedodd y Cyng. Paul Rowlinson, Ysgrifennydd Balchder Bro Ogwen:



“Dwi'n ddiolchgar iawn i ddisgyblion a staff Ysgol Llanllechid a'r gwirfoddolwyr am eu hymdrechion i wella'r fro. Roedd ymddygiad y plant, eu brwdfrydedd a'u dymuniad i wella eu hamgylchedd i'w canmol yn fawr. Roeddwn hefyd yn falch o'r cyfle wedyn i wrando ar gyflwyniad Grŵp Gwyrdd yr Ysgol i'r Llywodraethwyr ynglŷn â beth maen nhw'n ei wneud gyda'u cyd-ddisgyblion i gadw'r ysgol yn daclus ac arbed ynni trwy bethau syml fel diffodd goleuadau wrth adael ystafelloedd. Maen nhw hefyd yn ymwybodol iawn o'r niwed y gall sbwriel, yn enwedig plastig, ei wneud i fywyd gwyllt, ar y tir ac yn y môr a chawsom drafodaeth fywiog â nhw am y syniad o roi premiwm ar bris poteli plastig y byddwn yn ei hawlio yn ôl wrth ddychwelyd y poteli gwag i'r siop.”

Bydd aelodau Balchder Bro Ogwen yn gosod basgedi crog unwaith eto eleni ar hyd y Stryd Fawr ac yn trefnu sesiynau hel sbwriel eraill yn ystod y flwyddyn. Os hoffech helpu gallwch gysylltu â Paul Rowlinson, ar y rhif (01248) 605365 neu drwy e-bost: paul.rowlinson@trysor.f9.co.uk



Disgyblion Ysgol Llanllechid a Gwirfoddolwyr Balchder Bro Ogwen gyda'r holl sbwriel

Dilynwch ni ar trydar @Llais_Ogwan

JOHN ROBERTS
Paentiwr
Papurwr
Teilsiwyr

Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

**SIOP
OGWEN**

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois, Crefftau, DVDs, Golwg, Llyfrau, Llundiau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhowch ganiad i'r Siop am ragor o wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)
partneriaeth@ogwen.org

01248 208 485

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

Oriel Cwm
Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS

Bethesda

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk
☎ 0743 047642

Joe Hughes, Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda ☎ 60902

Yr Eglwys Unedig

Cawsom fis o oedfaon ardderchog a’r aelodau yn mwynhau’r pregeuthau. Mae’r plant yn ateb yn wych i’r pregethwyr pan yn cael sgwrs â hwy.

Cawsom oedfa gyda’r cymun yn cael ei rannu – dan ofal y Parch Pryderi Llwyd Jones. Gwerthfawrogir y baned ar ol yr oedfa fore gan bawb.

Mae’r Ysgol Sul yn brysur iawn yn gweithio ar eu prosiectau, ac yn mwynhau cwmniaeth ei gilydd.

Cydymdeimlwn a theulu Mrs Muriel Williams, Garneddwen yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain werthfawr iddynt. Roedd Muriel yn ffyddlon yn yr oedfa foreol a’r gymdeithas cyn ei gwaeledd. Fe gollwn ni hi yn fawr. Bu’r angladd Dydd Mawrth 27ain o Chwefror yn y Capel dan ofal y Parchedig Dr Huw J ohn Hughes.

Y Gymdeithas

Noson ardderchog arall yng nghwmni J oe a Neville. Croesawyd hwy gan Rhiannon y llywydd. Cawsom ganu a barddoniaeth gan Neville a J oe’n dweud hanes ei deulu o’r dwy ochr, difyr iawn yn wir. Diolchwyd iddynt gan Luned a Rita, Bessie a Doris oedd yn gofalu am y baned. Mae nifer dda n dal i ddod i’r baned fore lau i gaes sgwrs.

Bu Alan Puw yn yr ysbyty – anfonwn ein cofion ato a da i’w ei weld allan.

Llongyfarchiadau i blant yr eglwys yn ei llwyddiant yn Eisteddfod Cylch yr Urdd.

Priodas Ddiemwnt

Drigain mlynedd yn ôl, ar 22 Mawrth 1958, fe briodwyd J ohn a Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf, yng Nghapel Bethesda. Llongyfarchiadau mawr iddynt ar eu priodas ddiemwnt oddi wrth y plant a’r teulu i gyd.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Eifion a Gaynor Davies, Ffordd Ffrydlas, ar yr achlysur hapus o ddathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol ar 3 Mawrth.

Deunaw Oed

Llongyfarchiadau i Owain Morgan, Park Villa, ar ddathlu ei benblwydd yn ddeunaw oed ar 15 Chwefror.

Penblwydd Arbennig

Ar 24 Chwefror dathlodd Mrs. Eileen Roberts, Carneddi, ei phenblwydd yn 80 oed. Hefyd bu Mrs Mair Taylor, Maesygarneidd yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar 5 Mawrth.

Llongyfarchiadau a phenblwydd hapus iawn i’r ddwy ohonoch!

Ysbyty

Anfonwn ein cofion a’n dymuniadau gorau am wellhad buan at y rhai fu yn yr ysbyty yn ddiweddar yn derbyn triniaeth. Dyma’r rhai a ddaeth i sylw gohebydd y Llais :-Mr. Selwyn Jones, Erw Las; Mrs. Gaynor Davies, Ffordd Ffrydlas; Mr. Alan Puw, Cefn y Bryn; Mrs. Eileen Henessey, Cefn y Bryn; Mr. Tudur Jones, Allt Penybryn; Mrs. Elina Owen, Wernos; Mrs. Nancy Jones, Pant Glas; Mrs. Ann Thomas, Maes y Garnedd; Mr. Dyfrig Roberts, Stryd Fawr; Mr. Brian Tillman, Stryd Fawr.

Marwolaethau

Elfed Wyn Jones
Ar 9 Chwefror, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr. Elfed Wyn Jones, 28 Ffordd Ffrydlas, yn 79 mlwydd oed. Priod annwyl Mrs. Helen Jones a thad annwyl a charedig i Bethan. Saer coed oedd Elfed, ac yn uchel ei barch gan bawb yr oedd wedi gwneud gwaith iddynt. Roedd yn gymydog da, ac yn barod iawn ei gymwynas bob amser. Roedd Elfed yn hoff iawn o deithio dramor ac o dreulio gwyliau gyda’r garafan.

Cynhaliwyd ei angladd fore Mawrth, 20 Chwefror, yn Amlosgfa Bangor, gyda’r Parchedig Gwynfor Williams, Caernarfon, cyn weinidog Shiloh, Tregarth, yn gwasanaethu a Mr. Wynn Williams, Shiloh, wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi, Helen a Bethan, yn eich colled fawr.

Gwilym Jones

Yn dawel ar 1 Chwefror, yng Nghartref Glan Rhos, bu farw Mr. Gwilym Jones, 5 Y Garnedd, Llanfairpwll, gynt o Gilfodan, yn 87 mlwydd oed. Priod annwyl i’r ddiweddar Mrs. Doris Jones, tad a thad yng nghyfraith i Brenda a Roy a J ean. Taid hoffus i Ifan a Ceri, a hen daid i Paris, Millie a Cai J oseph. Roedd yn frawd a brawd yng nghyfraith i Glenys a Roy a Lilian, Irfon a’r diweddar Gareth. Un o’r dyffryn oedd Gwilym, yn fab i’r diweddar Mr. a Mrs. J ohn Jones. Bu’n gweithio mewn sawl siop ym Mangor ac i gwmni’r Crosville. Roedd yn hoff o gêm o bingo, a byddai’n mwynhau ‘r yrfa chwist bob yn ail nos Fawrth. Wedi iddo golli ei briod cafodd ofal arbennig gan ei ferch, Brenda.

Gwasanaethwyd yn ei angladd yn Amlosgfa Bangor ar 19 Chwefror gan y Parchedig Geraint Roberts, Llandegfan. Claddwyd ei lwch, gyda’i ddiweddar briod, ym Mynwent Coetmor, ddydd Gwener, 23 Chwefror. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

Muriel Williams

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 20 Chwefror, bu farw Mrs. Muriel Williams,

Crud yr Awel, Garneddwen, yn 78 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Mr. J ohn Rees Williams, a mam a mam yng nghyfraith annwyl a gofalus i Diane ac Aled a Gareth a Gwenan. Roedd yn nain arbennig i Richard, Andrew, Laura, Sioned, Dylan a Katie, ac yn hen nain annwyl i Shaun, Dafydd a Ben. Yn chwaer i Olwen, Huw, Tecwyn a’r diweddar Megan, Mair, Glenys a Vera, ac yn ffrind arbennig i Alwen.

Cafodd Muriel ei magu ym mhentref Dwyrân, Sir Fôn, hyd nes iddi briodi J ohn a dod i fyw i Fethesda. ‘Roedd yn wraig a weithiodd yn galed gyda’i gŵr i redeg busnes tacsis. Er iddi ddioddef o salwch blin, a’i chaethiwo i’w chartref, ‘roedd bob amser yn mwynhau sgwrs efo pawb fyddai’n digwydd galw.

Roedd yn aelod yng nghapel J erusalem, ac yno, a mynwent Coetmor, y cynhaliwyd ei hangladd ar ddydd Mawrth, 27 Chwefror, dan arweiniad y Parchedig Ddr. Huw J ohn Hughes. Cafwyd teyrngedau i nain gan ei hwyron, Richard. Andrew a Sioned. Mrs. Minnie Lewis oedd wrth yr organ. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu yn eich profedigaeth.

Gair o Ddiolch

Dymuna J oan a Sheryll a’r teulu ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt ar ôl colli mab a brawd annwyl, sef y diweddar Stephen Griffith.

Diolch hefyd am yr holl gardiau a’r rhoddion hael a dderbyniwyd. Bydd yr arian yn cael ei roi i Tîm Achub Mynydd Dyffryn Ogwen, er cof am Stephen. Diolch o waelod calon i chi i gyd.

Gorffwysfan

Cynhaliwyd cyfarfod o’r pwyllgor fore Llun, 26 Chwefror gyda Mrs. Rhiannon Efans yn y gadair.

Aelodau yn bresennol:-Ann Thomas, Jessie Jones, Falmai Davies, Rhiannon Efans, Dennis Dart, Selwyn Owen, Dilwyn Owen, Owen J ohn Evans, Vernon Owen, Edric Jones, Gilbert Bowen a J oe Hughes.

Ymddiheuriadau : Dafydd Pritchard, Blodwen a J unior Dignam, Ann Fôn Williams, Christine Davies, Elfed Bullock.

Cafwyd gair o groeso gan y cadeirydd ac fe ddymunodd wellhad buan gyda chofion at yr aelodau sy’n sâl, sef:-Mr. J oe Evans, Glanffrydlas; Mrs. Christine Jones, Hen Ysgol; Mrs. Glenys Lloyd Jones, Glanffrydlas; Mrs. Val Amos, Glanogwen; Mrs. J oan Griffith, Glanffrydlas; Mrs. Gaynor Davies, Ffordd Ffrydlas; Mrs. Doris Shaw, Bangor; Mr. Vic Smith, Tregarth.

Darllenwyd cofnodion pwyllgor 20 Chwefror , ac fe’u cafwyd yn gywir.

Cafwyd adroddiad boddhaol o sefyllfa ariannol y gymdeithas gan y trysorydd. Diolchwyd i’r trysorydd, Dennis, a’r ysgrifennydd gan y cadeirydd.

Materion i'w trafod
Bore Coffi, Sadwrn, 17 Mawrth yn
Nghefnfaes: gofynwyd am addewidion am
nwyddau i'w gwerthu, gwobrau raffl, ac am
gymorth i gynnal y bore. Penderfynwyd
cynnal bore coffi arall ar 6 Hydref 2018.

- Gwibdeithiau 2018
- 1. Caer – dydd Mercher 25 Ebrill (8.30yb)
 - 2. Southport – dydd Mercher, 20 Mehefin (8.30yb)
 - 3. Gerdi Trentham – dydd Mercher, 25 Gorffennaf (8.30yb)
 - 4. Marchnad Bury – dydd Mercher, 12 Medi (8.30yb)
 - 5. Bae Colwyn/Llandudno a chinio Nadolig – dydd Gwener, 14 Rhagfyr (8.30yb)

Pob gwibdaith i gychwyn ger y gofeb ar y Stryd Fawr.

Gofynnir am flaendal o £2.00 ar gyfer pob gwibdaith, a thaliad llawn i'w wneud wythnos cyn y wibdaith. Ni fydd y trysorydd yn derbyn arian ar ddiwrnod y wibdaith.

Ethol Swyddogion ar gyfer 2018
Darllenwyd llythyr o ymddiswyddiad fel cadeirydd gan Mr. Elfed Bullock. Diolchwyd iddo am ei waith gan Rhiannon.

Etholwyd y swyddogion isod:-
Cadeirydd : Rhiannon Efans; Is-gadeirydd: Falmai Davies; Trysorydd: Owen J ohn Evans;
Is-drysorydd: Vernon Owen; Ysgrifennydd: Joe Hughes.

Diolchwyd i bawb am eu presenoldeb yn y cyfarfod gan y cadeirydd.

Llythyr


Pen y Ceunant, Llanberis.
Annwyl ddarllenwyr,
Rwyn siŵr bod llawer ohonoch wedi adnabod y ddiweddar Heather Young .
Roeddwn innau wedi ei hadnabod ers tua 30 mlynedd , ac yn wir, wedi cyd-weithio â hi mewn nifer o wahanol lefydd dros y blynyddoedd.
Yn ddiweddar, cynhaliwyd noson lwyddiannus, pryd y daeth amryw o'i ffrindiau yma i Ben y Ceunant i hel atgofion am Heather, rhai ohonynt wedi ei hadnabod ers chwarter canrif a mwy!
Yr hynaf ohonynt oedd Margaret Ann, Belmont Avenue, Bangor, yn cofio'r hwyf a gawsant gyda'r criw yn Fferanti, ac Elwyn, Hogia'r Wyddfa yn eu plith.
Carys o Benmaenmawr a'r genod yn sôn am y 5 mlynedd y buont yn gweithio yng nghaffi yr A55. Fi oedd y bos, ond yng ngeiriau Heather, fy mrawd, Dilwyn Vaughan oedd "fy asgwrn cefn".
Atgofion wedyn am y pedair blynedd

a hanner hefo'r genod a'r hogia yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Pawb yn gweld colli "Hedd", "ein mam ni i gyd yn y pwll".
A beth amdani yn gweithio i mi, Steffan (neu Stephen) mewn pedwar gwahanol gaffi ar y Stryd Fawr ym Mangor dros gyfnod o chwarter canrif! Amser y byddai'n ei gofio am byth!
Yn anffodus, 'doedd hi ddim yn bosib i deulu Heather ddod i'r noson oherwydd trefniadau teuluol, ond fe wnaed casgliad teilwng tuag at achosion da fel â ganlyn:-
Tîm Achub Mynydd Llanberis £150;
Sefydliad y Galon £50; Llais Ogwan £50;
Eco'r Wyddfa £20.
Fel criw o ffrindiau Heather 'rydym yn edrych ymlaen at Ionawr 2019 pan fyddwn yn dod at ein gilydd eto i gofio amdani, y tro nesa' hefo lluniau.
Coffa da amdani,
Steffan Roberts.

PEN Y CEUNANT ISAF

Y B W T H Y N T É
www.snowdoncafe.com

Llwybr Yr Wyddfa
Llanberis
LL55 4UW
01286 872 606



CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
karena@aporiad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partion o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd
Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partion
o bob math – datlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?
Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224
Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwysleithog personol a chyfeillgar
Swyddfeydd eraill:
Llangefni Amboch Benllech
(01248) 723196 (01497) 831777 (01248) 852782
Caernarfon Pwllheli
(01248) 673616 (01758) 703000

Pentir

Cynrig a Carys Hughes, Rallt Uchaf,
Pentir, LL57 4YB. ☎ 0248 601318
E-bost: carys16@hotmail.com

Gwellhad buan
Rydym yn anfon ein cofion at Bet Thomas, Pentir a Kay King, Rallt sydd wedi bod yn cwyno yn ddiweddar.

Arddangosfa hen luniau
Gohiriwyd yr arddangosfa oherwydd y tywydd garw ac nawr fe gynhelir yr arddangosfa ddydd Sadwrn, 14 Ebrill. Rydym dal angen ffotograffau o ardal Pentir, cysylltwch gyda Cynrig (01248 601318).

Cydymdeimlo
Rydym yn cydymdeimlo gyda Michelle a Harry Hambleton, Ty'r Eglwys, yn eu profedigaeth wedi colli tad Michelle.

Dymuniadau da
Bu Marteg Dafydd yn cystadlu yn y gala Burns Meet yn Sheffield yn ddiweddar a chipio medal efydd. Mae hi a'i brawd Cedol hefyd wedi sicrhau eu lle yn y gala genedlaethol yn Abertawe ar benwythnos y Pasg.

Llongyfarchiadau i Cedol Dafydd am gael ei wahodd i wersyll triathlon ym Mechelen, Gwlad Belg, gyda Triathlon UK. Cafodd bythefnos o hyfforddiant dwys ar dechnegau triathlon ac yn ymarfer efo tîm ieuenctud Gwlad Belg.

Dymuniadau da i'r ddau ohonynt.



Collwyd yn y Rhyfel Mawr

Ganrif i fis hwn
ER COF
JOHN ELIAS ROBERTS
A fu farw 23 – 3 – 1918
Yn 27 ml. Oed
Mab Edward a Grace Roberts
33, High Street, Bethesda
(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon i'r Llais)

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr, Mynydd
Llandygái ☎ 60074

Teulu Amana yn Diolch
Hoffwn ddiolch unwaith eto i bawb am y rhoddion a dderbyniwyd er cof am Cein. Derbyniwyd £2,400 i Ward Alaw, yn hytrach na'r £2,000 a welsoch yn y Llais yn flaenorol. Bu Chris yn casglu arian yn ystod mis Tachwedd i'r gronfa Movember. Rhaid cyfaddef, tydi o ddim yn un am fwstas, ond 'rydym yn falch iawn ohono am gasglu £660 i gronfa Iechyd Dynion.Dyma lun ohono â'i "fan club". Mae ei wraig J o, a'i fab, Tomos J ohn yn falch iawn i gael gwyneb arferol Chris yn ôl.



Mae Alison a J ude wedi cofrestru i gyflawni her arbennig flwyddyn yma, sef cerdded 1,000 o filltiroedd yn ystod 2018. Bydd yr arian yn mynd i Prostrate Cancer UK er cof am ein annwyl Ceinion.Os hoffech ein noddi ni'n dwy, mae cyfeiriad ein tudalen isod:- www.justgiving.com/fundraising/jude-williams2

Cofiwch godi llaw os gwelwch chi ni'n dwy yn cerdded o gwmpas yr ardal. Byddwn allan ymhob tywydd!

Diolch eto,
Alison, Karen, J ude, Chris, Andrew, J o, Sophie Alice a Tomos J ohn.



Eglwys St. Ann a St. Mair
Mawrth 18: Boreol Weddi
Mawrth 25: Cymun Bendigaid
Mawrth 30: 2 y.p. Gwasanaeth – Dydd Gwener y Groglith
Ebrill 1: Sul y Pasg – Cymun Bendigaid
Ebrill 8: Cymun Bendigaid
Ebrill 15: Boreol Weddi.

Dechreuir y gwasanaethau am 9.45y.b.
Estynnwn croeso cynnes i bawb ymuno a ni yn ein gwasanaethau dros yr Wyl.

Ffair Basg
Dydd Sadwrn, 17eg Mawrth rhwng 11–2 o'r gloch. Ymunwch a ni dros yr awr ginio am luniaeth ysgafn neu i wneud ychydig siopa.

Cofiw am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

MODURDY FFRYDLAS



Profion M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda

♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

 **600723**
Ffacs: 605068

BARBWR OGWEN



Torri Gwallitiau
Dynion a Phlant
gan Alison

I hysbysebu yn Llais Ogwan,
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

©Dr J. Elwyn Hughes



Brenin y Bysys 1

Aphwy, meddech chi, sy'n haeddu'r teitl yna? Ia, dach chi'n iawn! Neb llai na David Elwyn Pritchard, mab un o deulu'r Moduron Porffor, sef Rose Pritchard, a gadwai'r Victoria Café. Caech gacan bwdin flasmus iawn ers talwm yn Siop Treflan ac yna pei gyda orau yn unman gan Rose. Ac mae Dafydd yn dal i gadw'i henw hi'n fyw hyd heddiw – Dafydd Rose ydi o i bawb, a hynny gydag anwylddeb a pharch bob amser.

Mae Dafydd yn boblogaidd iawn yn Nyffryn Ogwen a chanddo gylch eang o gyfeillion sy'n meddwl y byd ohono. A dw innau'n falch o fod yn un o'r cyfeillion hynny – ers blyneddau bellach.

Er ein bod yn nabod ein gilydd cyn ein dyddiau ar bysys yn y 1960au, dyna pryd y daethom yn gyeillion ac yn gydweithwyr. Myfyriwr oeddwn i ar y pryd ac wedi cael gwaith yn gondyctyr gan Mr Tom Davies dros y gwyliau ac iddo fo mae'r diolch am roi cyfle i mi wireddu fy mreuddwyd yn hogyn bach i fod yn yrrwr bws.

Daeth cais un diwrnod gan Mr Davies i'r gyrwyr i gyd ddysgu Dafydd i fod yn gondyctyr. Ac felly y bu. Cyfnod yn llawn hwyl a thynnu coes. Ond er gwaethaf ambell lithriad a cham gwag, llwyddodd Dafydd i feistrolï gofynion y gwaith i gyd. A dyna ddechrau cyfnod newydd eto, fel petai – cyfnod yn llawn o straeon difyr a doniol a Dafydd yn chwarae'r brif ran ym mhob drama.

Dylwn dd'eud yn syth fy mod wedi gofyn i Dafydd ddewis ryw bedair neu bump o straeon yr oedd o'n meddwl y byddech chi, ddarlennwyr, yn mwynhau eu darllen. A chefais sêl ei

fendith i'w hadrodd yma.

Y gyntaf a ddewisodd oedd yr un am ei antur efo'r dybl-decar. Pan nad oedd angen y decar yn y bore, er enghraifft, yr arfer oedd ei pharcio ar y dde, fwy neu lai, i ble mae'r feddygfa erbyn hyn, fel bod ei lle yn y garej (lle mae storfa Londis y tu ôl i'r siop heddiw) yn rhydd i drin un o'r bysys eraill.

Un bore, ychydig cyn i ni i gyd ddŵad at ein gilydd i gael panad, cofiaf Mr Tom Davies yn gofyn: 'Wneith un ohonoch chi fynd yn ôl y decar ar ôl panad'. Ond tra oedden ni i gyd yn mwynhau ein panad, clywsom ru uchel y decar yn nesáu'n araf. Pob un ohonan ni'n edrych ar ein gilydd yn ceisio dyfalu pwy oedd wedi mynd i nôl y decar. Sylweddoli'n sydyn mai'r unig un o'r criw oedd ar goll oedd Dafydd! Ond dim ond newydd gael trwydded i yrru car yr oedd o! Mi ruthron ni i gyd allan a dyna lle'r oedd Dafydd Rose y tu ôl i'r llyw yng nghab y dybl-dec yn dŵad yn dalog i mewn i Ffordd y Stesion! Ond wrth ddŵad yn nes, wnaeth yr hen Dafydd ddim sythu llwybr y decar ac, o'r herwydd, roedd yr olwynion blaen yn anelu at un o'r tai ar y chwith. Pob un ohonan ni'n sefyll yn stond a cheg-agored, ac yn hanner disgwyl y gwaethaf. Ac yna digwyddodd rhywbeth tebyg i wyrth! Trawodd olwyn blaen y decar yn erbyn y cyrb ar ochr y pafin a stopiodd injan y dybl-dec – ni allwn ond dyfalu bod Dafydd wedi cyffwrdd y brêc i hynny ddigwydd. Arbedwyd trychineb, heb os nac oni bai. Rydym wedi gallu chwerthin llawer wrth gofio'r digwyddiad ond yn sylweddoli'r un pryd y gallai pethau fod wedi bod yn wahanol iawn y bore hwnnw.

I'w barhau

Gawn ni ddiogelu ein henwau lleoedd?

Gweithdy llwyddiannus yn gam gyntaf.

Mae'n bleser cofnodi bod y gweithdy cofnodi enwau lleoedd a gynhaliwyd yn Neuadd Ogwen ar 24 Chwefror wedi bod yn llwyddiant arbennig. Cynhaliwyd y gweithdy dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru ac yr ydym yn hynod ddiolchgar i Dr Rhian Parry, Ifor Williams a'r Athro Hywel Wyn Owen am eu llafur yn trefnu'r achlysur. Cafwyd cydweithrediad rhagorol i hwyluso'r gwaith gan Dilwyn Llwyd, rheolwr y neuadd.

Yn ystod y dydd, ymwelodd dros 70 o bobl â'r gweithdy ac yr oedd brwdfrydedd y cyfranwyr nid yn unig yn heintus ond yr oedd pwysigrwydd eu cyfraniadau yn wirioneddol werthfawr. Cafwyd cofnodi brwd a thrafodaethau manwl ar byllau Afon Ogwen, ar bonciau Chwarel y Penrhyn, ar enwau caeau ffermydd yr ardal ac ar gofnodi'n gywir nodweddion daearyddol llethrau a mynydd-dir Dyffryn Ogwen, heb sôn am enwau strydoedd a thai ein hardal. Diolch i bawb a gyfrannodd ond megis dechrau y mae'r gwaith! Fel y soniodd un cyfrannwr wedi iddo gofnodi dros 30 o enwau caeau, yr oedd map ei ran ef o'r ardal yn dal yn rhyfeddol o wag wedi iddo

orffen!

Sut mae symud ymlaen gyda'r dasg o gofnodi enwau cyn iddynt fynd i ddifancoll? Trasiedi Dyffryn Ogwen yw na wnaeth y llipryn a oedd yn gyfrifol am gofnodi enwau ar fap y Degwm yn 1845 ei waith o gwbl, gan adael ein dau blwyf ni ymhlith yr ychydig yng Nghymru sydd heb gofnod. Oni ddylem ni felly ystyried sefydlu panel ymchwil parhaol i barhau gyda'r gwaith gwyh a gychwynnwyd ar y 24ain yn y Gweithdy? Gallai panel o'r fath gofnodi enwau mewn categorïau penodol mewn ardaloedd llai eu maint o fewn Dyffryn Ogwen gan nodi'n drefnus i wneud iawn am y diffygion presennol. Y bwriad yw cael hynny sy'n bosib o'n henwau lleoedd ar fap digidol a fydd ar lein at ddefnydd pawb. Byddant yn rhan o gofrestr Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a bydd hynny'n cryfhau'r alwad am ddeddfwriaeth i'w diogelu.

Efallai y byddai sefydlu panel dan warchodaeth ein dwy gymdeithas hanes yn fan cychwyn delfrydol i'r math hwn o waith. Byddai panel ymchwil o'r fath yn sicr o ennill cefnogaeth ac arweiniad gan Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.



Gwyn Jones a Bryn Evans yn lleoli a chofnodi enwau pyllau afon Ogwen ar y map digidol.

Ysgol Llanllechid

Myfyrwraig

Mae'n bleser croesawu myfyrwraig arall atom o Brifysgol Bangor, sef Gwenlli Haf. Mawr obeithiwn y byddi yn hapus iawn yn ein plith Ms Haf. Mae Ms Sian Evans yn parhau yma hefo ni, ac yn gwneud gwaith da ym Llwyddyn 2, o dan arweiniad Mrs Wilson.

Ysgol Greadigol Arweiniol

Yn sgil derbyn grant, rydym bellach wedi dechrau ar y gwaith o greu campweithiau creadigol gyda Mrs Anna Gruffydd.

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i ddisgyblion ar eu perfformiadau, eu hynawsedd a'u hymddygiad ym Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen.

Llongyfarchiadau i bawb am gystadlu a llongyfarchion gwresog i'r rhai a ddaeth i'r brig. Diolch i bawb a fu'n eu hyfforddi gan gynnwys Mrs Helen Williams, Mrs Menai Willams, Mrs Marian J ones a Mr Huw Edward J ones.

Canlyniadau Eisteddfod yr Urdd Ysgol Llanllechid
Gruffydd Beech, 1af, Unwad BI 2 ac Iau;
Gruffydd Beech, 1af, Unawd Cerdd Dant BI 2 ac Iau;
Lois J ones, 3ydd, Unawd BI 5 a 6;
Gwenno Beech, 1af Unawd Cerdd Dant BI 3 a 4;
Parti Afra, 1af Parti Cerdd Dant;
Parti Mali, 2il Parti Cerdd Dant;
Grwp Llefaru Ayesha, 3ydd, Parti Llefaru;
Côr Grace, 2il, Côr BI 6;
Gruffydd Beech, 1af, Llefaru Unigol BI2 ac Iau;
Catrin Morris, 3ydd, Llefaru Unigol BI 2;
Seren Roberts, 1af, Llefaru Unigol BI 3 a 4;
Gwenno Beech, 2il, Llefaru Unigol BI 3 a 4;
Mali Burgess Williams, 3ydd, Llefaru Unigol BI 3 a 4;
Chenai Chicanza, 1af, Llefaru Unigol BI 5 a 6;
Madeline Sinfield, 3ydd, Llefaru Unigol BI 5 a 6;

Meithrin Capel Carmel

Diolch i Mrs Helen Williams am roi croeso i blant dosbarth Meithrin a dosbarth Blwyddyn 1a fu yng Nghapel Carmel yn astudio nodweddion y capel. Diolch iddi am fod mor barod i gerdded yr ail filltir bob amser.

Sbwriel a Gwastraff

Mae ein Grwp Gwyrdd, o dan arweiniad Mr Stephen J ones, wedi bod yn goleuo pawb ar sut i edrych ar ôl yr amgylchedd ac yn ein sobri i gyd wrth i ni sylweddoli pa mor ddi-fater ydan ni yn taflu sbwriel i bob man, heb sylweddoli fod llawer o'r sbwriel yma yn cael ei olchi i'r nentydd, afonydd ac i'r môr. Gwyddom yn dda pa mor drychinebus yw effaith hynny ar fywyd gwyllt, a daeth hyn yn

fyw i ni hefyd wrth edrych ar raglen David Attenborough.

Mae'r Grwp Gwyrdd yn trio eu gorau glas i sicrhau fod tiroedd yr ysgol yn parhau i fod yn lân a thaclus, felly hefyd Lon Bach Odro a Llyn Corddi ac, fel y gwyrddoch, bu cynrychiolaeth o'r ysgol yn brysur yn casglu sbwriel o amgylch Maes Bleddyn gyda chriw Balchder Bro, a bu hynny'n llwyddiant ysgubol! Ond, ni allwn laesu dwylo!

Wrth astudio hyn ymhellach, daethpwyd o hyd i ffaith ddifrifol: ar Ionawr 29 eleni, roedd naw ar hugain o forfilod yn stryffaglo ar lannau Môr y Gogledd. Yn anffodus, bu farw llawer ohonynt, a beth sydd wedi dod i'r amlwg yw fod stumogau'r morfilod hyn a fu farw yn llawn o blastig, gan gynnwys rhwyd bysgota 13m o hyd; plastig o geir a.y.y.b Ffaith eironig: stumogau llawn yn achosi llwgu.

Neges arall gan y Grwp Gwyrdd yw mai nid darnau mawr o blastig sy'n achosi problemau; mae'r darnau mân e.e. y darnau sydd mewn past dannedd hefyd yn creu dinistr difrifol i'r gadwyn fwyd.

Oeddech chi'n gwybod ein bod fel gwlad yn ceisio dygymod â'r ffaith fod China bellach wedi gwrthod derbyn sbwriel a phlastig gennym? Ers cryn amser, rydym wedi bod yn anfon 500,000 tonnelli o wastraff i China bob blwyddyn ar gyfer ei ail-gylchu. Oherwydd hyn, mae'n gryn sialens i'r awdurdodau feddwl am ateb arall, ac mae ein Grwp Gwyrdd ni wedi bod yn llawn syniadau. A'r neges glir ganddynt yw: os gwelwch yn dda, peidiwch a chynhyrchu cymaint o sbwriel, ail-gylchwch, defnyddiwch lai o blasting a chofiwch am y biniau! Diolch yn fawr!

Jonsi a'r Ambiwllans Awyr

Yn dilyn ymweliad dosbarthiadau Blynnyddoedd 3 a 4 â Maes Awyr Caernarfon yn Ninas Dinlle, daeth Mr Eifion J ones [J onsi], Swyddog Marchnata'r Ambiwllans Awyr i sgwrsio, ac ateb eu cwestiynau yn ei ddull hwyliog ei hun. Roedd y plant eisoes wedi gweld yr hofrennydd, yn ogystal â chael sgwrs gydag un o'r parafeddygon. Yr hyn sydd wedi rhoi syndod i bawb yw mai dibynnu ar roddion ac ewyllys da y mae'r gwasanaeth pwysig hwn am arian. Anhygoel! Penderfynodd y plant eu bod eisieu gwneud rhywbeth i helpu'r achos, felly, dyma nhw'n penderfynu agor siop! Y disgyblion eu hunain a drefnodd y cyfan – stondinau,

sgwâr cant, peintio ewinedd, tatws, llyfrau, a channoedd o gacennau! Dyma i chi 'Lais y Plentyn' a rei orau! Roedd J onsi wrth ei fodd yn derbyn siec o £300 tuag at yr Ambiwllans Awyr! Ardderchog blantos! Diolch arbennig hefyd i Mr a gyfrannodd yn hael at ymdrechion ein plant. Mae Mr Gerallt Williams yn sylweddoli yn fwy na neb pa mor hanfodol yw'r gwasanaeth hwn gan iddo gael ei gludo i Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar mewn ambiwlans awyr.

Ymweliad Mr. Dilwyn Pritchard

Croesawyd Mr. Dilwyn Pritchard o Glwb Hanes Rachub i sgwrsio gyda disgyblion Blynnyddoedd 3 a 4 am y gŵr arbennig o Rachub a adeiladodd awyren yn gynnar yn yr 20fed ganrif. Gan ein bod yn astudio 'hedfan fry', cam hollol naturiol oedd cael gwybod mwy am y gŵr o Dyddyn Canol, mab i chwarelwr cyffredin, a dyfodd i fod yn arbenigwr mewn sawl maes, gan gynnwys mathemateg, ffiseg, daeareg ac yn arbennig, gwyddoniaeth yn ymwneud â hedfan! Meddyliwch amdano'n adeiladu rhannau o awyren mewn sied yn yr ardd, ac yn mynd i ben Moel Faban, er mwyn cael gweld os oedd ei greadigaethau yn gweithio! A wyddoch chi beth? Un tro, aeth pethau o chwith yn ystod cyfnod y Rhyfel; cafodd ei arestio gan yr heddlu, am eu bod yn credu mai ysbïwr o'r Almaen oedd o! Beth bynnag am hynny, llwyddodd i hedfan ei awyren dros draeth Llanddona ym Môn! Chwiliwch am y goflech; mae hi yno hyd heddiw, yn gofnod o'r digwyddiad dramatig. Treuliwyd cyfnod gwerth chweil yng nghwmni Mr. Pritchard ac fe ganmolodd safon uchel y cwestiynnu! Da iawn blant, a diolch yn fawr Dilwyn! Diolch i Mrs Marian J ones am drefnu.

Tad Sion Blewyn Coch

Wel dyna hwyl a gawsom yn dysgu am Mic y llwynog a ysbrydolodd gymeriad Sion Blewyn Coch. Roedd Mic yn byw ar allt Penybryn ac roedd yn anifail anwes i J.O. Williams (Llyfr Mawr y Plant) hen daid a nain Robin Llywelyn, ac yn hen, hen daid a nain i Mared Llew ac Elin! Un direidus oedd Mic ac roedd yn swel yn ei got goch a'i wasgod wen a deuai pobl o bell ag agos i'w edmygu! Mae stori am yr hen Mic yn cymryd da da o geg...ac yn dianc o'i gwt a lladd ieir y plismon, oedd yn byw drws nesa! Dyna i chi halibalw!



Croesair Llais Oghan

AR DRAWS

- 5 Yr olaf o'ch enwau (6)
- 7 Ymhlith (5)
- 9 Llwm o elfen di-flewyn (4)
- 10 ".y ganwyd —J esse'n faban bach.." (carol) (8)
- 11 Tir y genedl lle'ch ganwyd (7)
- 13 Brathiad (5)
- 15 Dim croeso yn unlle i drigo i'r dwylo blewog yma (5)
- 17 Yr hyn y mae 15 Ar Draws yn ei wneud (7)
- 20 Hawl a grym i reoli (8)
- 21 Gŵr o Tel Aviv efallai (4)
- 23 'Ein Tad, ..'(5)
- 24 Syniad od yn ei ben am fuwch goch gota ! (6)


I LAW R

- 1 Colli deigryn (4)
- 2 Mynd ymaith heb gael nac ennill dim (7)
- 3 Gwalia yw 11Ar Draws y gŵr yma (5)
- 4 Celfi gweithwyr coed (6)
- 6 Atgoffa rhywun o'i fai (5)
- 8 Mynd yn ôl i ddial yw gweithred rhai, ond nid y swil a'r diymhongar (7)
- 12 Dim yn adnabyddus o gwbl (7)
- 14 Gweithred J iwdas (7)
- 16 Yr oedd y gŵr yn 14I Lawr yn 'un o'r —'. (6)
- 18 Y rhai sy'n fwyaf tebygol o ddefnyddio 4I Lawr (5)
- 19 Ysgol Bro —, ysgol newydd ardal Dolgellau (5)
- 22 Yr un fwyn yn y gân enwog (4)

ATEBION CROESAIR
CHW EFROR 2018

- AR DRAWS 1Ysfa, 4 Colled, 8 Enw, 9 Mentrus, 10 Ynys Enlli, 11 Broc, 12 Gwaradwyddus, 16 Effro, 18 Erthyglau, 20 Ariandy, 21 Nel, 22 Dillad, 23 Ufudd
- I LAW R 2 Saesneg, 3 Anwes, 4 Cymanfa, 5 Llenni, 6 Dirybudd, 7 Asio, 13 Atodiad, 14 Wrth Fynd, 15 Stablau, 17 Fflach, 18 Ennill, 19 Genau

Yn anffodus, cafwyd un camgymeriad sef 'Cymynna' yn lle'r ateb cywir 'Cymanfa'. Mae'r gweddill i'w canmol am atebion hollol gywir, sef : Gwenda Davies, Llanfairpwll;



Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Bethesda; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Donna Coleby, Penwortham; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gwyneth J ones, Glasinfryn; Gareth William J ones, Bow Street; Dilwyn a Linda Pritchard, Elin Pritchard, Rachub; Dilys A. Pritchard-J ones, Abererch; Doris Shaw, Bangor; Dilys Wyn Griffith, J ohn a Meirwen Hughes, Abergele; Angharad Watkins a Huw Pritchard, Caerdydd; Rosemary Williams, Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Tregarth; Adrian Poulton, Pentir; Dilys Parry, Rhiwlas; J ohn H. Evans, Llanberis.

Aiff y wobr a'r llongyfarchiadau am yr ymgais gywir gyntaf o'r het i Iona Williams, Tegfan, Ffordd Newydd, Llanddulas, Abergele, LL22 8EL

Atebion erbyn 6 Ebrill, 2018 i 'Croesair Mawrth', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

I hysbysebu yn
Llais Oghan, Neville
Hughes 600853
(nev_hughes@
btinternet.com)

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480
07967 541870

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

Atebion erbyn 6ed Ebrill, 2018 i 'Croesair Mawrth'
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

.....

Cyfeiriad

.....

.....

.....

.....

Ysgol Pen-y-bryn

Eisteddfod yr Urdd
Llongyfarchiadau gwresog i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd ar Chwefror 24ain yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Cafodd y cor gyntaf ac felly ymlaen a nhw i'r Eisteddfod Sir – da iawn chi! Bu llawer yn cystadlu'n unigol gyda llefaru, canu ac offerynnau ac roedd gan yr ysgol ymgom, parti unsain a pharti llefaru. Braf iawn oedd gweld cymaint yn cystadlu! I'r rhai ohonoch chi sy'n mynd ymlaen i'r Eisteddfod Sir, pob lwc i chi!



Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Yng nghanol mis Chwefror aeth nifer o'r aelodau i gyfarfod Plaid Lafur Arfon, yn bennaf i wrando araith gan Megan Meeke o SHELTER am yr anhawsterau sy'n wynebu pobl di-gartref a'r bobl sy'n rhentu tai e.e. effaith wael y newid mewn budd-daliadau gan y toriaid. Syndod oedd clywed nad oedd Cyngor Gwynedd wedi gwario'r cwbl

o'r arian a ddyanwyd iddynt gan Lywodraeth Cymru ar gyfer taliadau rhent disgresiynol mewn un flwyddyn yn ddiweddar ac o ganlyniad iddynt gael dyraniad llai'r flwyddyn ganlynol.
Ar ddiwedd y mis, aeth llawer o aelodau'r gangen i noson gymdeithasol gyda chwis gan Cangen Bangor, gyda rhan o'r elw yn mynd i SHELTER.

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysu Telars
Batris
Tracio

01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

UNIPART

CAR CARE CENTRE

Ar Werth yn Lleol

Tŷ teulu swmpus 4 ystafell wely
ar ystâd boblogaidd Rhos y Nant

I drefnu ymweliad cysylltwch â Morfudd
ar 07795 250300

Gwahoddir cynigion
c.£250,000 - £270,000

Clwb Camera Dyffryn Ogwen

Lleoliad: Cefnfaes, Bethesda
7.15pm – 9.30pm

RHAGLEN MAWRTH – MAI 2018

Mawrth 7

Noson ar y cyd gyda Chlwb Camera Caernarfon

Mawrth 21

Darlith gan Gareth Jenkins "Prosiectau Ffotograffig Personol"

Ebrill 4

Cystadleuaeth – "Fy Nyffryn" efo Margaret Salisbury

Ebrill 18

Darlith gan Andy Polokowski "Arddangosiaeth"

Mai 2

C.C.B

Gweler gwefan y clwb am ragor o wybodaeth a lluniau gan aelodau: www.dyffrynogwencamera.co.uk

Manylion Cyswllt
Cyngorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafydddown@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinaltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen

@PlaidCymruOgwen